Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
67/2022
DYDDIAD CYHOEDDI:
20/12/2022

# Asesiad Gwerthusadwyedd ar gyfer Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru: Mewnwelediadau ychwanegol i gefnogi gwerthusiad yn y dyfodol

OGL © Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-80535-182-5

Teitl: Asesiad Gwerthusadwyedd ar gyfer Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru: Mewnwelediadau ychwanegol i gefnogi gwerthusiad yn y dyfodol

Awdur(on): Liz Puntan a Kelly Lock

Puntan, L., a Lock, K., *Asesiad Gwerthusadwyedd ar gyfer Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru: Mewnwelediadau ychwanegol i gefnogi gwerthusiad yn y dyfodol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 67/2022

Ar gael yn: https://llyw.cymru/asesiad-gwerthusadwyedd-ar-gyfer-glasbrint-cyfiawnder-i-fenywod-cymru-ar-glasbrint-ar-gyfer-cyfiawnder-ieuenctid-yng-nghymru

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Merisha Weeks

Polisi Cyfiawnder

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays 2

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 628345

E-bost: PSLGResearchTeam@llyw.cymru

**Cynnwys**

1. Cefndir ... 3
2. Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid ... 4
Atal ... 4
Dargyfeirio cyn mynd i'r llys ... 8
*Adborth rhanddeiliaid* ... 8
Cefnogaeth yn y gymuned ... 9
Y ddalfa ... 13
Ailsefydlu a phontio ... 19
Ymchwil a gwerthuso ... 22
Goruchwyliaeth o'r system ... 24
Heriau trosfwaol ac adborth arall ... 27
3. Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru ... 30
Ymyrraeth gynnar ac atal ... 30
Llysoedd a dedfrydu ... 36
Atebion cymunedol ... 41
Y ddalfa ac ailsefydlu ... 45
Heriau trosfwaol ac adborth arall ... 58

**Geirfa**

| Acronym / gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| ACE | Profiad niweidiol yn ystod plentyndod (PNYP) |
| APVA | Trais gan Berson Ifanc yn y Glasoed tuag at Riant |
| AG | Asesiad Gwerthusadwyedd |
| CJS | System Cyfiawnder Troseddol |
| CRL | Trwydded Ailsefydlu Gofal Plant |
| CSCS | Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu |
| ECM | Rheoli Achosion Uwch |
| ETE | Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth |
| FTE | Pobl sy'n dechrau yn y system am y tro cyntaf (i'r system cyfiawnder ieuenctid) |
| HMPPS | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi |
| MoJ | y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| OPD | Anhwylder Personoliaeth Troseddwyr (Llwybrau) |
| PRU | Uned Cyfeirio Disgyblion |
| PSR | Adroddiad Cyn Dedfrydu |
| ROTL | Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro |
| SCH | Cartref Diogel i Blant |
| STC | Canolfan Hyfforddi Ddiogel |
| YCS | Y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc yn y Ddalfa |
| YJAP | Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid Cymru |
| YJB | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid |
| YJS | System Cyfiawnder Ieuenctid |
| YOI | Sefydliad Troseddwyr Ifanc |
| YOS | Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid |
| YOT | Tîm Troseddwyr Ifanc |
| YPU | Uned Pobl Ifanc |

# 1. Cefndir

1.1 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi adborth ychwanegol gan y rhanddeiliaid, y bobl ifanc, a'r menywod a gymerodd ran mewn cyfweliadau fel rhan o’r Asesiad Gwerthusadwyedd (AG) ar gyfer Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru. Bydd yn ddefnyddiol wrth gynllunio a chyflwyno unrhyw werthusiad o'r ddau Lasbrint yn y dyfodol.

# 2. Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid

## Atal

*Adborth rhanddeiliaid*

2.1 Roedd rhywfaint o deimlad bod atal yn un o brif flaenoriaethau'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Pwysleisiodd y rhanddeiliaid fod atal yn helpu i sicrhau nad oedd plant a phobl ifanc yn cael eu labelu a'u throseddoli, gan leihau'r effaith negyddol o fynd i'r system cyfiawnder ieuenctid ar eu bywydau a'u cyfleoedd. Roedd atal hefyd yn cael ei ystyried yn hanfodol er mwyn atal aildroseddu a'r cynnydd mewn troseddu ymhlith plant a phobl ifanc.

> *'Rwy'n meddwl ei fod yn gwbl hanfodol i atal aildroseddu. Mae bywydau plant yn cael eu difetha'r eiliad y maent yn mynd i'r system cyfiawnder troseddol. Mae mor syml â hynny. Maent yn cael eu gwahardd o'r byd addysg sy'n arwain at anawsterau wrth ddod o hyd i waith, sy'n arwain at anawsterau tai, sy'n arwain at ffordd anhrefnus o fyw. Bydd cyfle llawer gwell ganddynt mewn bywyd os allwch eu hatal rhag mynd i'r system trwy ymyrraeth gynnar.'*

2.2 Nododd y rhanddeiliaid fod y flaenoriaeth yn alinio â pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU, ynghyd â'r angen i'r ddwy lywodraeth barhau i gydweithio i'w cyflawni. Dywedwyd hefyd bod y flaenoriaeth atal yn rhoi mwy o atebolrwydd ar wasanaethau statudol ehangach y tu hwnt i gyfiawnder ieuenctid.

> *'Dwi'n meddwl bod atal yn ddull sy'n cwmpasu'r system gyfan. Yn hanesyddol, dwi'n meddwl bod atal cyfiawnder ieuenctid wedi cael ei ystyried yn fater cyfiawnder ieuenctid. Yn benodol, mae'r Glasbrint yn tynnu sylw at y cyfrifoldebau sydd gan y partneriaid cyfiawnder i'w cyflawni a bod y ffactorau risg sy'n gysylltiedig â throseddu yn drawsbynciol a bod atal yn gyfrifoldeb ar ystod ehangach o bartneriaid statudol, felly dwi'n meddwl ei fod yn bwysig iawn.'*

2.3 Er nad yw wedi'i gynnwys yn benodol yn y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, mae cynllun gweithredu'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnwys yr argymhelliad i ddatblygu dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer gweithgarwch atal y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi'i dargedu a sicrhau ei fod wedi'i ymgorffori mewn model fframwaith ar y cyd.

2.4 Croesawodd y rhanddeiliaid y posibilrwydd o gyflwyno fframwaith atal ieuenctid. Teimlai rhai y byddai hyn yn adlewyrchu ffocws ehangach y system ar arfer wedi'i lywio gan drawma ac yn sicrhau bod ymyrraeth gynnar ac atal yn parhau i fod yn flaenoriaethau. Nodwyd sawl ystyriaeth ar gyfer datblygu fframwaith atal ieuenctid. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol:

- Creu ar y cyd ag asiantaethau partner (gan gadw perchnogaeth cyfiawnder ieuenctid yn gyffredinol), gan adlewyrchu dull iechyd cyhoeddus.

*‘Ond i mi, ym maes cyfiawnder ieuenctid, ni ddylai fod yn rhywbeth sydd wedi'i adeiladu gan gyfiawnder ieuenctid yn unig ond mewn partneriaeth â gwasanaethau ieuenctid, gwasanaethau gofal plant, addysg, a dylai pob math o wasanaethau eraill fod yn rhan o’r gwaith o a) gosod cynllun atal a b) cyflawni'r cynllun hwnnw. Ni ddylai fod yn gyfiawnder ieuenctid yn unig.’*

- Osgoi dyblygu neu wrth-ddweud strategaethau presennol.

*‘Rwy'n cytuno â'r syniad o gael [fframwaith atal cyfiawnder ieuenctid] mewn egwyddor, ar yr amod ei fod yn ystyriol ac yn ymwybodol o'r strategaethau presennol yn y lle. Weithiau, dwi'n meddwl y gall pethau newydd gael eu lansio a’u rhoi ar waith heb roi ystyriaeth ddyledus i’r hyn sy’n bodoli eisoes na’r hyn sy’n digwydd yn barod, a dwi’n meddwl bod hyn yn digwydd mewn llawer o feysydd polisi ymarfer, nid yn unig yn y Glasbrint.'*

- Bod yn hyblyg a gallu addasu yn unol â'r ymchwil, polisi ac ymarfer diweddaraf.

*‘Dylai fod digon o hyblygrwydd yn [y fframwaith atal] fel y gellir ei addasu yng ngoleuni … dysgu newydd … yn enwedig pan fyddwn yn sôn am Lasbrintiau sydd wedi bodoli am nifer o flynyddoedd … felly, ar yr amod bod yr holl bethau hynny'n cael eu hystyried a'i bod yn strategaeth weithredol ac nid yn rhywbeth sy'n eistedd ar silff yn hel llwch, mae ganddo gysylltiad ystyrlon â'r rhaglen a'r prosiectau, ac mae hynny'n beth da.’*

- Derbyn cyllid digonol.

*‘Nid oes arian digonol yn cael ei wario ar atal … mae angen i ni sicrhau bod cyllid priodol i'r holl lefelau hynny a'r holl fathau hynny o wasanaethau.’*

2.5 Gwnaeth rhai rhanddeiliaid ystyried yr hyn y dylai’r fframwaith atal arfaethedig ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru ganolbwyntio arno. Roedd eu hawgrymiadau yn cynnwys y canlynol:

- Addysgu plant a phobl ifanc am fodelau rôl rhag-gymdeithasol;
- Mynd i'r afael â chamfanteisio’n droseddol ar blant a phobl ifanc;
- Ystyried anghenion plant a phobl ifanc â nodweddion gwarchodedig;
- Archwilio sut y gall addysg ac ysgolion helpu i atal troseddu;
- Egluro rolau asiantaethau partner o ran atal a'u dwyn i gyfrif.

*Adborth pobl ifanc*

2.6 Y cymhellion mwyaf cyffredin ar gyfer troseddu ymhlith y plant a'r bobl ifanc a gyfwelwyd gennym fel rhan o'r AG oedd diflastod a'r angen am arian.

> *‘Dim ond mwy o bethau i'w gwneud, dyna i gyd. Pe bai mwy o bethau i'w gwneud, byddai'n achosi cymaint llai o drafferth. Does dim byd i'w wneud bob dydd.’*

> *‘Nid yw helynt hyd yn oed yn cyffroi pobl, mae'n fwy, ti'n deall? Mae’r rhan fwyaf o bobl yn mynd i drafferthion y dyddiau hyn, naw gwaith allan o ddeg, oherwydd rhyw fath o arian, oherwydd dyma’r peth mwyaf caethiwus yn y byd yn awr – arian.’*

2.7 Gwnaeth dylanwadau negyddol a chamfanteisio gan gyfoedion achosi i un unigolyn ifanc droseddu.

> *‘Mae'n fwy am y ffaith y byddai'r bois yn fy annog i ddwyn rhywbeth a byddwn yn dwyn rhywbeth. Wedyn, fi fyddai'r unig un sydd wedi dwyn rhywbeth achos dydyn nhw ddim [yn poeni] amdanat, yn amlwg.’*

2.8 Dywedodd un unigolyn ifanc â phrofiad o ofal y byddai cael negeseuon clir a chefnogaeth gan ei rieni corfforaethol wedi ei helpu i aros allan o drwbl.

> *‘[Es i] o leoliadau maeth - roedden nhw'n torri lawr o hyd - i mewn i gartrefi gofal preswyl bryd hynny ... dwi'n meddwl mai dyna wnaeth achosi fy holl ymddygiad oherwydd doeddwn i ddim yn gwybod beth oeddwn i'n ei wneud pan oeddwn i yno ... ni allaf roi'r bai i gyd ar fod mewn gofal, ond pe bai gen i un set o bobl yn*

*dweud wrtha i am ddeall da a drwg ... roedd cannoedd o bobl yn dweud hyn wrtha i.'*

2.9 Roedd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc wedi cael eu gwahardd o'r ysgol neu o Unedau Cyfeirio Disgyblion yn y gorffennol. Dywedodd rhai fod eu troseddu wedi gwaethygu yn dilyn cael eu gwahardd.

*'Roeddwn yn cyflawni mân droseddau trwy'r amser o gael fy nhaflu allan [o'r ysgol]; dim ond pethau gwirion, ond pan ges i fy nhaflu allan o'r Uned Cyfeirio Disgyblion, dyna pryd wnes i ddechrau gwneud pethau mwy difrifol. Roeddwn i'n dwyn o dai ... ac roedd llawer o hynny'n dal i fyny gyda mi.'*

2.10 Yn unol â hynny, teimlai sawl un y byddai aros yn yr ysgol a chymdeithasu â chyfoedion rhag-gymdeithasol wedi eu hatal rhag troseddu.

*'Pan oeddwn i'n iau, roeddwn i'n arfer chwarae llawer o bêl-droed ac mae gen i lawer o ffrindiau na fyddai wedi gwneud y math hwn o [beth], felly roedd hynny'n fy nghadw ar y trywydd iawn. Dwi'n meddwl pe bawn i wedi gallu cael rhywfaint o syniad o'r hyn fyddai'n digwydd pe na fyddwn i'n aros yn yr ysgol, efallai na fyddai hyn wedi digwydd.'*

2.11 Dywedwyd bod y Timau Troseddwyr Ifanc yn chwarae rhan allweddol wrth gyflwyno plant a phobl ifanc i weithgareddau adeiladol, pleserus, a oedd yn cynnig dewisiadau amgen hyfyw i aildroseddu. Dywedwyd bod cael yr opsiynau hyn yn annog plant a phobl ifanc i feddwl ddwywaith cyn cymryd rhan mewn trosedd eto.

*'Os wyt yn helpu rhywun yn lle ei gosbi ac yn ei helpu i ddilyn ei freuddwydion a mynd ar ôl yr hyn y mae'n ei hoffi, hyd yn oed os nad yw'n gweld hynny ei hun ond ei fod wedi dweud wrthyt fod ganddo ryw fath o ddiddordeb, bydd yn eu dilyn yn fwy.'*

2.12 Pwysleisiwyd pwysigrwydd brandio a rhoi cyhoeddusrwydd i weithgareddau atal mewn ffordd a oedd yn apelio at blant a phobl ifanc.

*'Gall fod oherwydd teitlau [gweithgareddau'r Tîm Troseddwyr Ifanc] … Nid ei fod yn swnio'n gas neu'n ddrwg, mae'n swnio braidd yn ddiflas. Canolfan ieuenctid – mae'n swnio fel y byddet yn mynd yno, a bydd llawer o bobl ifanc yn eistedd o amgylch bwrdd yn dweud straeon a phethau ... dwi'n meddwl pe bai'n dweud ei fod yn rhyw fath o weithgaredd, fel prosiect penodol.'*

## Dargyfeirio cyn mynd i'r llys

*Adborth rhanddeiliaid*

2.13 Gwelwyd bod dargyfeirio cyn mynd i'r llys yn cyd-fynd yn agos â’r agenda plentyn yn gyntaf a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru a’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd dargyfeirio cyn mynd i'r llys i helpu i gadw plant a phobl ifanc allan o'r system cyfiawnder ieuenctid ac atal eu troseddu rhag gwaethygu. Roedd hyn, yn ei dro, yn lleihau stigmateiddio ac yn sicrhau canlyniadau bywyd gwell.

> *‘Mae'r gwaith sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd er mwyn dargyfeirio ... a'r cyfleoedd mae hynny'n ei roi … i greu bywydau gwahanol, bywydau mwy cadarnhaol iddyn nhw a'u teuluoedd a'u cymunedau, yn hanfodol ac ni ddylid byth ei anghofio. Dylid ei ariannu bob amser.’*

2.14 Tynnodd y rhanddeiliaid sylw at y llwyddiant sylweddol a gyflawnwyd gan wasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru o ran lleihau nifer y rhai sy’n dechrau yn y system am y tro cyntaf drwy’r modelau Brysbennu a Swyddfa. Roeddent yn cysylltu hyn â ffocws y dulliau ar ymyrraeth gynnar, cymorth wedi'i deilwra'n unigol, a chydweithio cryf rhwng y Timau Troseddwyr Ifanc, yr heddlu, plant a phobl ifanc, a theuluoedd. Dywedwyd bod llysoedd a dedfrydu yn llawer llai effeithiol o ran lleihau aildroseddu na dargyfeirio cyn mynd i'r llys a dim ond ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol y dylid eu cadw yn ôl.

*Adborth plant a phobl ifanc*

2.15 Dywedodd rhai plant a phobl ifanc eu bod wedi gweithio gyda'r Timau Troseddwyr Ifanc fel rhan o ddull dargyfeirio. Roedd y rhan fwyaf wedi mynegi barn gadarnhaol am y cymorth a ddarperir gan y Timau Troseddwyr Ifanc, a archwilir yn fanwl yn erbyn y flaenoriaeth 'gymunedol'. Roedd rhai wedi aildroseddu er iddynt gael eu dargyfeirio sawl gwaith.

> *‘Dyna oedd fy ail gyfle…. Roedd yn rhaid i mi wneud dau neu dri o gyfarfodydd yr wythnos, a byddai hynny'n fy nghadw allan o'r carchar. Dyna oedd hi: y diwrnod olaf cyn i mi fynd i'r carchar, gwnes i lanast yn y cyfarfod gyda'r Tîm Troseddwyr Ifanc, a dyna pam wnaethon nhw fy anfon i'r carchar.’*

*'Ni allaf ddweud ei fod mor effeithiol â hynny gan fy mod i wedi aildroseddu…. Nid yw'n teimlo fel adsefydlu mewn gwirionedd, mae'n fwy o gosb am yr hyn rydw i wedi'i wneud. Dwi'n mynd yno ac yn gadael ar ôl deg munud a dwi ddim yn teimlo fy mod yn mynd yno a chael [cefnogaeth] i newid.'*

2.16 Mewn sawl achos, dywedodd plant a phobl ifanc fod eu gweithwyr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi ysgrifennu adroddiadau cyn dedfrydu a oedd, yn eu barn nhw, wedi eu helpu i aros allan o'r ddalfa. Soniodd un unigolyn ifanc am yr adeg pan gynhyrchodd ei weithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid adroddiad cyn dedfrydu a gynigiodd y byddai'n fwy buddiol iddo weithio'n ddwys gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn hytrach na chael dedfryd o garchar. Roedd y llys wedi derbyn hyn.

*'Daeth i'r llys gyda mi. Fe sy'n gyfrifol am fy nghael i allan o'r llys. Ysgrifennodd adroddiad i mi fod gydag ef am ba hyd, beth bynnag, nid wyf yn gwybod pa mor hir y dywedodd, chwe mis neu rywbeth. Ac yna [bues i'n] gweithio gydag ef, ac aeth popeth yn iawn, felly.'*

**Cefnogaeth yn y gymuned**

*Adborth rhanddeiliaid*

2.17 Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cytuno'n gryf y dylai arfer wedi'i lywio gan drawma fod yn ffocws i flaenoriaeth gymunedol y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Yn fwy na dim ond offeryn neu ymyriad ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc, dywedwyd mai arfer wedi'i lywio gan drawma oedd y 'gonglfaen' ar gyfer atal troseddu a sicrhau canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc.

*Enghreifftiau o arfer effeithiol mewn cymorth yn y gymuned i blant a phobl ifanc, a ddarperir gan randdeiliaid*

2.18 Darparodd rhanddeiliaid yr enghreifftiau canlynol o arfer effeithiol mewn cymorth yn y gymuned i bobl ifanc yng Nghymru.

- Rheoli Achosion Uwch[1].

[1] Mae Rheoli Achosion Uwch (ECM) yn ddull a arweinir gan seicoleg sy'n cyd-fynd â mentrau eraill sy'n anelu at leihau aildroseddu ymhlith plant a phobl ifanc. Yn seiliedig ar y Model Gwella o Drawma (TRM) (Skuse a Matthew, 2015), mae'n defnyddio fformiwleiddiad achosion amlasiantaeth i ddeall hanes plant, eu hanghenion datblygiadol, eu cryfderau, a'u ffactorau amddiffynnol, i lywio sut mae ymarferwyr y Tîm Troseddwyr Ifanc yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc i gyflawni canlyniadau gwell.

- Gwaith dargyfeirio'r Tîm Troseddwyr Ifanc, gan gynnwys cefnogi pobl ifanc i herio eu hagweddau a'u credoau o blaid troseddu.

*‘Y ffordd orau o atal pobl rhag troseddu yw i wneud iddynt feddwl ei fod yn annerbyniol ... Mae llawer o'r math hwn o waith yn digwydd mewn timau troseddau ieuenctid, a gwasanaethau ledled y wlad … Mae ychydig fel hiliaeth; gallwch ddweud wrth bobl, ond yr unig ffordd i'w atal yw trwy feddwl ei bod yn annerbyniol gweithredu ac ymddwyn yn y ffordd honno ... Y dull hwnnw o wneud iddynt dderbyn ei fod yn annerbyniol yw rhai o'r arferion gorau yr wyf wedi'u gweld.’*

- Gwaith Timau Troseddwyr Ifanc ar gyfiawnder adferol, e.e., defnydd o baneli.
- Gwaith Timau Troseddwyr Ifanc gyda phlant sy'n dangos ymddygiad rhywiol.
- Gwydnwch ac ymyriadau sy'n canolbwyntio ar gryfder, wedi'u darparu gan Dimau Troseddwyr Ifanc.
- Mynd â gwasanaethau i bobl ifanc (a theuluoedd), e.e., symud oddi wrth ddarparu gwasanaethau o adeiladau Timau Troseddwyr Ifanc, a all fod yn anneniadol neu’n fygythiol, ac allan yn y gymuned.
- rhaglenni Trais gan Berson Ifanc yn y Glasoed tuag at Riant (er bod hyn hefyd wedi'i nodi fel bwlch mewn gwasanaethau yn y gymuned i bobl ifanc).

*Adborth plant a phobl ifanc*

2.19 Dywedwyd bod Timau Troseddau Ieuenctid yn cefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn eu cymunedau, yn unol â’u hanghenion a’u dewisiadau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Gwneud chwaraeon, e.e., rygbi, hwylio, bocsio;
- Mynd i'r gampfa / darparu aelodaeth campfa;
- Recordio cerddoriaeth;
- Cynlluniau cyllidebu i gefnogi byw'n annibynnol.

2.20 Dywedodd plant a phobl ifanc hefyd fod Timau Troseddwyr Ifanc wedi eu cefnogi i wneud gwaith gwneud yn iawn yn y gymuned, megis:

- Adeiladu tŷ gwydr;

- Adeiladu eitemau pren ar gyfer ystafell ddosbarth awyr agored ar gyfer ysgol gynradd leol;
- Garddio;

*'Roedden ni'n arfer mynd i helpu hen bobl … a chlirio eu gerddi, a phethau felly…. [Fe wnaethon ni] wneud tŷ y ddynes hon, y cyfan ohono, y sied a'r mieri a'r ddaear ar gyfer ei ffens ... Fe wnaethon ni dorri'r cyfan allan a dechreuodd hi lefain dros y gwaith roedden ni wedi'i wneud.'*

- Casglu sbwriel;
- Glanhau traethau.

2.21 Roedd y Timau Troseddwyr Ifanc hefyd yn cefnogi plant a phobl ifanc yn y gymuned i gael mynediad at gyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli ac addysg, hyfforddiant, a darpariaeth a chymorth cyflogaeth, gan gynnwys y canlynol:

- Sgiliau adeiladu, e.e., gosod brics a gwaith coed;
- Cael cerdyn y Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu[2] i alluogi plant a phobl ifanc i weithio ar safleoedd adeiladu;
- Cymorth i gael mynediad at gyrsiau galwedigaethol yn y coleg;
- Profiad broceru gyda chynhyrchydd cerddoriaeth.

2.22 Dywedodd un unigolyn ifanc, er bod ei weithiwr o'r Tîm Troseddwyr Ifanc wedi ymdrechu'n galed i sefydlu cysylltiadau â'r coleg lleol, ei fod yn rhwystredig nad oedd staff y coleg i'w weld yn cymryd unrhyw sylw o gyfathrebiadau ei weithiwr o'r Tîm Troseddwyr Ifanc.

*'Mae hi'n gofyn i bobl ond does dim ots gan bobl yn y coleg, dydyn nhw ddim hyd yn oed yn edrych arno.'*

2.23 Bu'r Timau Troseddwyr Ifanc hefyd yn broceru amrywiaeth o gymorth i blant a phobl ifanc, gan gynnwys cymorth cyffuriau ac alcohol, a chymorth i ddod o hyd i lety priodol.

---

[2] Mae cerdyn y Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu yn gerdyn clyfar sy'n darparu tystiolaeth o hyfforddiant iechyd a diogelwch y sector adeiladu.

2.24 Roedd awgrymiadau ar gyfer yr hyn y gallai'r Tîm Troseddwyr Ifanc ei wneud i wella eu cymorth i blant a phobl ifanc yn cynnwys y canlynol:

- Helpu i redeg cynlluniau menter, lle gallai plant a phobl ifanc werthu eitemau yr oeddent wedi'u gwneud wrth ymgysylltu â'r Tîm Troseddwyr Ifanc, fel cadeiriau/byrddau;
- Cynnig profiad gwaith â thâl mewn crefftau adeiladu, fel gosod brics;
- Sefydlu stiwdio recordio ar y safle.

2.25 Teimlai plant a phobl ifanc y byddai hyn yn eu hannog i barhau i ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant o'u gwirfodd yn y dyfodol.

*'Oherwydd pe bai hynny'n beth y mae'n rhaid i bobl ei wneud, ac yna maent yn dechrau ei wneud ac yn cael rhywfaint o arian ar ei gyfer, byddent yn fwy tueddol o barhau i wneud hyn.'*

2.26 Dywedwyd bod cydberthnasau plant a phobl ifanc â'u gweithwyr o'r Tîm Troseddwyr Ifanc yn ganolog i effeithiolrwydd y cymorth yr oeddent yn ei ddarparu. Dywedodd y rhan fwyaf fod ganddynt gydberthnasau cadarnhaol, ymddiriedus gyda'u gweithwyr o'r Tîm Troseddwyr Ifanc.

*'Dwi wedi dweud pethau wrth y [gweithiwr o'r Tîm Troseddwyr Ifanc] dwi erioed wedi dweud wrth neb arall mewn gwirionedd.'*

*'… Mae'r holl bobl yn y Tîm Troseddwyr Ifanc yn gadarn a theg.'*

*'Mae gen i gymaint o barch at y boi achos fyddwn i ddim lle ydw i oni bai amdano.'*

2.27 Roedd plant a phobl ifanc yn croesawu'n arbennig y gallu i siarad yn agored â'u gweithwyr o'r Tîm Troseddwyr Ifanc.

*'Dwi'n eu gweld fel ffrindiau. Yn lle cael criw o ffrindiau drwg, gallaf ddod i siarad â fy ffrindiau da. Dyma pam dwi ddim yn trafferthu gyda phobl dda fy oedran i oherwydd nad ydyn nhw wedi profi llawer mewn gwirionedd ac ni allet siarad â nhw llawer, ond yn y fan hon, gallwch gael sgwrs, gallwch siarad.'*

2.28 Roedd agweddau di-lol ond parchus gweithwyr o'r Tîm Troseddwyr Ifanc hefyd yn cael eu gwerthfawrogi gan blant a phobl ifanc.

*'Mae'r [gweithiwr o'r Tîm Troseddwyr Ifanc] yn rhoi'r un egni i mi ag yr wy'n ei roi iddo. Os ydw i'n hapus, mae'n hapus, ac nid yw'n dod i'r gwaith dim ond i fwrw ymlaen â'r gwaith, ond mae'n ei wneud oherwydd dyma beth mae'n mwynhau ei wneud …. Dwi erioed wedi cael rhywun yn dweud wrtha i mewn gwirionedd oherwydd ei fod yn gofalu amdanaf.'*

2.29 Dywedodd dau o'r plant a phobl ifanc ei bod yn bwysig cael eu paru â gweithiwr o'r Tîm Troseddwyr Ifanc yr oeddent yn ymddiried ynddynt, yn cyd-dynnu'n dda â nhw ac yn teimlo bod ganddynt gefnogaeth.

*'… Dwi ddim yn dod ymlaen gyda fy ngweithiwr o'r Tîm Troseddwyr Ifanc o gwbl … bu farw fy mam y diwrnod y des i allan o'r ddalfa. Roedd y gweithiwr o'r Tîm Troseddwyr Ifanc roeddwn i'n gweithio gyda hi ar y pryd ... yn dda iawn, roedd hi'n fy nghefnogi'n dda iawn ac yna fe wnes i newid i ddyn nad oeddwn i'n dod ymlaen ag ef o gwbl, sydd wedi arwain at gael fy ngalw yn ôl.'*

2.30 I'r gwrthwyneb, roedd un arall yn teimlo bod diffyg parhad gan y gwasanaethau cymdeithasol yn broblem.

*'Pan oedd gen i weithiwr cymdeithasol, roedd gen i lawer yn dod i mewn ac allan, felly bob tro roeddwn i'n cwrdd â nhw [bydden nhw'n newid llawer] …. Roeddwn i eisiau siarad â nhw am fy mhroblemau a phethau ond mae'n anodd iawn. Does dim sefydlogrwydd ac roeddwn i am fod yn agored i rywun ond rwyt ti'n gwybod y byddet yn gweld rhywun arall.'*

**Y ddalfa**

*Adborth rhanddeiliaid*

2.31 Cytunodd y rhanddeiliaid y dylai plant a phobl ifanc gael eu lleoli mewn llety diogel yn agos at eu cartrefi. Teimlwyd bod plant a phobl ifanc yn dueddol o wneud yn well pan fyddant mewn lleoliadau diogel yn nes at adref ac i gyflawni canlyniadau gwell ar ôl eu rhyddhau na phan gânt eu lleoli ymhellach i ffwrdd. Roedd cael eu lleoli'n agosach at adref yn galluogi teulu i ymweld yn haws, yn galluogi cyswllt mwy rheolaidd â'u gweithiwr achos o'r Tîm Troseddwyr Ifanc, yn hwyluso mwy o ddefnydd o'r broses o Ryddhau ar Drwydded Dros Dro, ac yn galluogi plant a phobl ifanc i fyw a chael eu haddysgu yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. I'r gwrthwyneb, dywedwyd bod plant a phobl ifanc o Gymru sy'n cael eu lleoli yn Lloegr yn fwy agored i ddylanwad gangiau a bwlio, ac yn ôl y sôn, roedd rhai wedi

rhoi'r gorau i siarad Cymraeg lle mai dyna oedd eu dewis iaith oherwydd ei fod yn eu gwahaniaethu rhag y plant a'r bobl ifanc eraill.

2.32 Roedd cyllid a darpariaeth gwasanaethau hefyd yn ymddangos yn symlach pan oedd plant a phobl ifanc o Gymru yn cael eu lleoli mewn lleoliadau diogel yng Nghymru. Fodd bynnag, dywedwyd hefyd y dylid gwneud penderfyniadau am leoliadau diogel fesul achos. Er enghraifft, gall teuluoedd rhai plant a phobl ifanc fod yn ddylanwadau camdriniol neu negyddol, ac mewn rhai achosion, roedd cael eu lleoli yng Nghymru yn golygu bod plant a phobl ifanc ymhellach i ffwrdd oddi wrth eu teuluoedd.

2.33 Dywedwyd bod darpariaeth sy'n cael ei llywio gan drawma, dan arweiniad seicolegydd, sy'n canolbwyntio ar gydberthynasau yn hanfodol er mwyn gwella'r ddalfa i blant a phobl ifanc a'u canlyniadau ar ôl eu rhyddhau.

> *'Dwi'n meddwl ei bod yn bwysig iawn cael y ddarpariaeth ddiogel sydd wedi'i llywio gan drawma, nid yn unig ar gyfer plant sy'n troseddu oherwydd eu trawma neu eu profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ond oherwydd plant ag anghenion iechyd meddwl difrifol sy'n golygu eu bod yn troseddu yn ddiofyn o ganlyniad i'w hiechyd meddwl.'*

2.34 Teimlai'r rhanddeiliaid y dylid addasu'r prosiect, Waliau Anweledig Cymru[3] sydd ar waith yng Ngharchar Y Parc (ond nad oedd ar gael yn yr Uned Pobl Ifanc o fewn y sefydliad ar hyn o bryd) i'w ddefnyddio gyda phlant a phobl ifanc yn y ddalfa i'w helpu i gynnal cydberthnasau teuluol.

*Adborth plant a phobl ifanc*

2.35 Roedd gan dros hanner y plant a phobl ifanc yn y gymuned y buom yn siarad â nhw brofiad o fod yn y ddalfa. Roedd pob un wedi cael eu rhoi ar remánd mewn Canolfan Hyfforddi Ddiogel. Roedd cyfran debyg o'r plant a'r bobl ifanc y buom yn siarad â nhw a oedd mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc ar hyn o bryd wedi bod yn y ddalfa fwy nag unwaith. Dywedodd dau o'r plant a'r bobl ifanc o'r Sefydliad

[3] Mae Waliau Anweledig Cymru yn brosiect a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr ac mae wedi'i leoli yng Ngharchar Y Parc. Ei nod yw cynnal a gwella cydberthnasau rhwng y dynion yn y ddalfa a'u teuluoedd trwy ddull "teulu cyfan", gan ddarparu cymorth i'r rhai yn y ddalfa, eu partneriaid a'u plant am hyd at 12 mis cyn eu rhyddhau a chwe mis ar ôl eu rhyddhau.

Troseddwyr Ifanc y buom yn siarad â nhw ei fod yn cymharu'n ffafriol â lleoliadau diogel eraill y buont ynddynt.

*'Roedd fy mhrofiad cyntaf mewn Canolfan Hyfforddi Ddiogel ... mae llawer o bobl yn dweud y byddent yn fwy agored i niwed mewn Canolfan Hyfforddi Ddiogel nac mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc ond dwi'n teimlo bod llawer mwy wedi digwydd mewn Canolfan Hyfforddi Ddiogel nag sydd wedi digwydd ers i mi fod yma ... mewn Canolfan Hyfforddi Ddiogel, dwi'n meddwl bod rhaid dysgu ... eu bod yn blant ifanc a'i bod yn orfywiog, felly mae pawb ychydig yn dawelach mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc.'*

2.36 Roedd unigolyn ifanc arall yn cofio bod yn 'sownd yn eich ystafell' yn llawer mwy aml pan oedd mewn Canolfan Hyfforddi Ddiogel, o'i gymharu â'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc.

2.37 Roedd unigolyn ifanc a oedd wedi bod mewn Cartref Diogel i Blant wedi cael profiad o gael ei fwlio ac roedd o dan bwysau i ymuno â gangiau pan oedd yn y sefydliad.

*'Mae'n iawn, rwyt yn cael mwy o ryddid nag mewn rhai lleoedd. Ond y bobl sy'n ei wneud yn lle creulon achos dim ond rhywbeth fel dau Gymro oedd yno.'*

*'Mae'n fwy cysylltiedig â gangiau, ti'n gwybod ... roedd rhai pobl yn dal dig oherwydd eu gang ... ond roedd yn rhaid cadw dy ben i lawr.'*

2.38 Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn gallu cofio a ofynnwyd iddynt am eu cefndir ac unrhyw anghenion oedd ganddynt pan gyrhaeddant gyntaf, dywedodd rhai o'r plant a'r bobl ifanc y gofynnwyd iddynt a bod yr wybodaeth a'r cymorth a roddwyd iddynt ar y pryd yn foddhaol.

*'Wnes i esbonio popeth iddyn nhw ynghylch y [materion personol penodol] a hynny i gyd. Roedden nhw'n gefnogol iawn i hynny.'*

2.39 Fodd bynnag, roedd eraill yn cofio, er ei bod yn debygol y gofynnwyd iddynt am eu hanghenion, efallai na ofynnwyd iddynt am eu cefndir. Dywedodd un neu ddau o'r plant a'r bobl ifanc hyn nad oeddent yn teimlo y gallent siarad am eu cefndiroedd pan gawsant y cyfle, er na wnaethant roi unrhyw resymau penodol dros yr amharodrwydd hwn.

2.40 Roedd rhai o'r plant a'r bobl ifanc wedi cael amser caled ar ddechrau eu dedfryd ac wedi cael anhawster i addasu ond wedi dod i arfer dros amser.

*'Roedd hi'n fis neu ddau gythryblus ar ddechrau fy nedfryd ond dwi wedi newid cryn dipyn bellach. Dwi wedi adsefydlu ac yn bwrw ymlaen ag ef.'*

2.41 Nid oedd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn hoffi'r diffyg rhyddid a oedd ganddynt yn y Sefydliad Troseddwyr Ifanc, er eu bod yn teimlo bod y drefn yn foddhaol ar y cyfan. Byddai rhai yn croesawu cael mwy o fynediad at eitemau personol fel tegelli, nad oeddent yn cael eu caniatáu ar hyn o bryd.

2.42 Roedd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc wedi cael ymweliad gan eu teuluoedd tra'r oeddent yn y Sefydliad Troseddwyr Ifanc, ond nid oedd lleiafrif oherwydd bod eu teuluoedd yn byw ymhell i ffwrdd, a/neu'n cael trafferth dod i'w gweld.

*'Dwi'n gweld eisiau fy nheulu, ni allaf weld fy nheulu, byddaf yn eu gweld ar alwad fideo am hanner awr gyda rhywun gwahanol. Does gen i ddim ymweliadau cymdeithasol.'*

*'… mae fy mrawd bach bob amser yn yr ysgol ...'*

*'Dydyn nhw ddim wir yn dod i ymweld â fi. Nid yw fy nain wedi ymweld, fy nhaid sy'n dod bob amser …'*

2.43 Roedd pob plentyn ac unigolyn ifanc yn gallu cyfathrebu â'u teulu trwy alwadau ffôn rheolaidd. Roedd safbwyntiau cymysg ganddynt am y gost a oedd yn gysylltiedig â'r galwadau. Teimlai rhai fod cost y galwadau ffôn yn iawn ond roedd yn afresymol i eraill.

*'Mae'r ffonau'n torri allan bob deg munud. Rwyt ti ar y ffôn am ddeg munud, wedyn mae'n gwneud sŵn bîp ac yn torri allan. Dwi'n meddwl ei fod yn 65c/70c am alwad, am ddeg munud. Felly, mae braidd yn ddrud. Ac mae'r deg munud yn mynd yn gyflym iawn. Pethau felly, mae braidd yn anodd.'*

2.44 Nododd rhai plant a phobl ifanc fod swm y credyd a oedd ar gael iddynt yn dibynnu ar ba drefn yr oeddent yn ei dilyn, er bod y symiau wedi cynyddu'n ddiweddar, a oedd yn ei gwneud yn haws cysylltu â'r teulu. Roedd hefyd yn bosibl derbyn negeseuon e-bost a llythyrau, ond nid oedd pawb yn hoffi defnyddio'r opsiwn hwnnw.

*'Dwi'n derbyn ychydig o lythyrau, ond dwi ddim yn eu hanfon yn ôl mewn gwirionedd.'*

2.45 Teimlai’r plant a’r bobl ifanc a oedd yn y Cartref Diogel i Blant yn flaenorol fod maint y cyswllt a gawsant â’u teuluoedd yn ddigonol. Yn ystod COVID-19, rhoddwyd caniatâd iddynt gael galwadau fideo a galwadau ffôn ychwanegol. Teimlai un bod amlder ymweliadau teulu yn ormod.

*‘Roedden nhw ychydig yn fwy nag y dylen nhw fod, ac fe wnes i gyrraedd y pwynt lle dywedais wrthyn nhw, dwi ddim eisiau i chi ddod i'm gweld bob dydd. Dywedais y byddai dwywaith yr wythnos yn ddigon.’*

2.46 Roedd rhai o’r plant a’r bobl ifanc y buom yn siarad â nhw nad oeddent wedi bod yn y ddalfa yn rhagweld mai diffyg cyswllt teuluol fyddai’r peth mwyaf heriol yn ei gylch, er bod un yn teimlo y dylai plant a phobl ifanc yn y ddalfa dderbyn hyn fel un o ganlyniadau eu gweithredoedd.

*‘I raddau, dwi'n teimlo mai eich cosb yw eich cosb ar ddiwedd y dydd, ac nid wyt yn gallu crio am dy fam pan wyt ti wedi rhoi dy hun yn y carchar.’*

2.47 Dywedodd plant a phobl ifanc fod ystod o gymorth ar gael iddynt pan oeddent yn y ddalfa a'u bod yn deall sut i gael mynediad ato.

*‘I fod yn deg, mae'r lle hwn yn iawn, mae gen ti'r holl gymorth a bron popeth sydd ei angen arnat mewn [Sefydliad Troseddwyr Ifanc]. Fyddwn i ddim yn newid dim byd yma. Bydd pwy bynnag a ddaw yma'n iawn, dwi'n meddwl y bydden nhw’n ei chael yn anodd mewn carchardai eraill, dydyn nhw ddim yn gefnogol fel y lle hwn.’*

2.48 Roedd y cymorth sydd ar gael yn targedu camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, ysmygu, iechyd meddwl ac iechyd rhywiol. Dywedodd un unigolyn ifanc fod ei nyrs iechyd meddwl yn ei arwain trwy rai cyrsiau ar ei emosiynau a rheoli dicter a theimlai'n gadarnhaol iawn yn eu cylch. Roedd staff y lleoliad hefyd wrth law os oedd plant a phobl ifanc eisiau siarad am unrhyw beth a oedd yn eu poeni.

*‘Gallwch siarad â gweithiwr allweddol. Gallwch siarad ag unrhyw un o'r staff os wyt yn dymuno. Gallwch ofyn, “Wyt ti'n gallu mynd â fi i ystafell ac a allaf siarad â ti?”’*

2.49 Dywedodd un o’r plant a’r bobl ifanc a gyfwelwyd ei fod yn siarad Cymraeg ac yn gwerthfawrogi'r pwysigrwydd o allu siarad Cymraeg â rhai o staff y lleoliad, er bod eu tafodieithoedd yn wahanol.

2.50 Dywedodd yr holl blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod yn y ddalfa bod y ddarpariaeth Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth yn y lleoliadau yn gadarnhaol iawn. Roedd pawb sydd yn y Sefydliad Troseddwyr Ifanc ar hyn o bryd wedi ennill rhai cymwysterau ac yn gweithio tuag at gyflawni mwy. Roedd llawer yn astudio ar gyfer Cymwysterau TGAU mewn mathemateg a Saesneg, ac ar gyfer cymwysterau mewn ystod o bynciau eraill megis celf, cerddoriaeth, astudiaethau busnes, coginio, a gwaith coed. Roedd llyfrgell hefyd ar gael i'w defnyddio.

*‘Yr addysg yw'r unig fudd [o fod yn y Sefydliad Troseddwyr Ifanc], oherwydd gwnes i lanast o'r amser a'r cyfnod yn ceisio mynd i'r coleg am nad oedd gennyf ddigon o gymhelliant, ond wrth fod yma, does dim byd a all dynnu fy sylw oddi arno mewn gwirionedd, felly does gen i ddim esgus nawr.’*

2.51 Dywedodd plant a phobl ifanc eu bod wedi cael dewis o weithgareddau hamdden yn y Sefydliad Troseddwyr Ifanc, gan gynnwys mynd i'r gampfa, gwylio ffilmiau, chwarae pêl-droed, rygbi, a chwarae gemau cyfrifiadurol. Nododd y plant a’r bobl ifanc a oedd wedi bod yn y Cartref Diogel i Blant yn flaenorol hefyd fod amrywiaeth o weithgareddau ar gael, er bod llai o ddewis.

*‘Roedd ychydig o ddewis ond nid oedd llawer o ddewisiadau. Fe wnes i chwarae pŵl, mynd ar yr Appstore, mynd i'r gampfa, neu wneud dim byd.’*

*‘Gallwch fynd i'r gampfa, mynd i'r neuadd chwaraeon, chwarae gwyddbwyll, neu wneud ychydig o arddio. Roedd teledu ar y wal.’*

2.52 Yn ôl rhai o’r plant a phobl ifanc y buom yn siarad â nhw, roedd y ddalfa yn aneffeithiol o ran eu hatal rhag troseddu.

*‘Byddwn i'n dweud rhoi'r gorau i geisio cosbi pobl a rhoi'r gorau i roi mwy o amser i bobl am bethau. Ie, gallai hynny fod yn ddrwg, ond nid yw'n mynd i'w helpu: bydd hynny'n eu gwneud yn waeth. Os byddwch yn rhoi mwy o amser i rywun yn y carchar, bydd hynny'n eu gwneud yn waeth ac yn waeth dros y blynyddoedd, ac maent yn mynd i ymladd mwy.’*

2.53 Dywedodd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc oedd yn y ddalfa ar hyn o bryd y byddent yn rhybuddio eraill yn ei erbyn oherwydd y 'risg i ryddid', llai o gyswllt teuluol, effaith negyddol ar deulu, a'r ffaith ei fod yn 'wastraff mawr o amser’.

*‘Dylet newid dy fywyd, peidio â chymryd y llwybr anghywir a pheidio â dysgu am fywyd yn y ffordd anodd, dylet ddysgu am fywyd yn y ffordd hawdd. Os wyt yn dysgu'r ffordd anodd, ti yw'r unig un sy'n gorfod dioddef, nid wyt yn gallu gweld dy deulu ond ti yw'r unig un sy'n cael ei dynnu oddi wrthyn nhw.’*

*‘Stopia; dy fam fydd yn dioddef ac yn mynd drwy'r straen.’*

2.54 Fodd bynnag, siaradodd rhai yn gadarnhaol am fod yn y ddalfa gan ddweud na fyddai ots ganddynt ddychwelyd oherwydd bod ganddynt ffrindiau yn y ddalfa, gallai bywyd yn y ddalfa fod yn well na bywyd yn y gymuned, a 'rwyt yn dod i'r arfer â dod yn ôl’.

*‘Yn bersonol, dwi'n meddwl fy mod wedi dod yn gyfforddus, felly does dim ots gen i ddod yn ôl. Dwi'n cyrraedd y pwynt hwnnw nawr lle rydw i'n 17 [bron] ... felly ymhen blwyddyn, bydda i’n dod o dan Wasanaeth Carchar Ei Mawrhydi, felly, byddai hynny'n brofiad gwahanol, ond dwi'n amau byddai'n wahanol iawn.'*

*‘Dwi ddim yn gwybod beth allai ddigwydd yn fy mywyd. Yn amlwg, nawr dwi wedi bod yma, mae hi dipyn yn haws dod nôl, ti'n deall? Mae gen i fwy o gyfle o ddod yn ôl yn syth, felly dwi ddim yn gallu dweud hynny'n bendant.’*

2.55 Roedd pob un o’r plant a’r bobl ifanc y buom yn siarad â nhw o’r Sefydliad Troseddwyr Ifanc yn deall sut i wneud cwyn os oedd angen ac yn teimlo y byddai’r sefydliad yn ystyried y gŵyn.

*‘Mae 'na flwch cwynion ar y landin…. Dwi wedi ei weld yn digwydd cryn dipyn, fel arfer pan fydd un gŵyn yn cael ei chyflwyno. Os bydd y gŵyn honno'n digwydd fwy nag unwaith - mae naill ai'n digwydd neu mae rhywun yn cael ei symud.’*

2.56 Dywedodd rhai plant a phobl ifanc eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn os oedd angen iddynt wneud hynny y tu allan i’r ddalfa (e.e., am yr heddlu neu’r Tîm Troseddwyr Ifanc) ond ni wnaeth y rhan fwyaf. Roedd dau wedi cwyno am y diffyg cymorth yr oeddent yn teimlo eu bod wedi'i gael gan y gwasanaethau cymdeithasol, fel y trafodwyd mewn man arall.

**Ailsefydlu a phontio**

*Adborth plant a phobl ifanc*

2.57 Roedd pob un ond un o'r plant a'r bobl ifanc sydd yn y Sefydliad Troseddwyr Ifanc ar hyn o bryd i fod i gael eu rhyddhau dros yr ychydig fisoedd nesaf. Roedd y rhan

fwyaf ohonynt wedi cael eu holi am eu hanghenion cymorth yn arwain at eu rhyddhau.

2.58 Dywedodd sawl un eu bod wedi cael cefnogaeth gan Barnardo's, y Gynghrair Howard, MYND a'r YMCA, yn ogystal â chyngor cyffredinol gan staff y Sefydliad Troseddwyr Ifanc. Roedd pawb o’r farn bod y gefnogaeth a roddwyd yn brofiadau cadarnhaol ac ni allai neb feddwl am ddim byd mwy y gellid bod wedi'i wneud i'w cefnogi. Dywedodd un fod *'popeth yn berffaith’*.

2.59 Dywedodd dau o’r plant a’r bobl ifanc y buom yn siarad â nhw eu bod yn cael cyfarfodydd rheolaidd i drafod eu llety ar ôl eu rhyddhau, er nad oedd ganddynt unrhyw fanylion eto ynghylch ble y byddent yn byw. Roedd hyn wedi effeithio ar eu gallu i flaengynllunio ar gyfer gwaith.

> *‘Dwi ddim yn gallu meddwl am bethau nes fy mod yn gwybod lle rwy'n byw, a'r ardal…. Dwi ddim yn gallu dod allan heb ddim byd i gefnogi fy mywyd ariannol. Mae angen i mi gael rhywbeth; dwi ddim yn gallu byw ar yr arian a gaf ganddyn nhw oherwydd dim ond £60 yr wythnos yw e, felly nid yw’n llawer. Mae angen i mi ddod o hyd i swydd neu ryw fath o ffordd i mi wneud arian.’*

2.60 Dywedodd y rhan fwyaf o’r plant a’r bobl ifanc y buom yn siarad â nhw fod eu gweithwyr o'r Tîm Troseddwyr Ifanc yn aros mewn cysylltiad rheolaidd â nhw drwy gydol eu cyfnod dan glo ac ar ôl gadael y ddalfa hefyd. Roedd gweithwyr o'r Tîm Troseddwyr Ifanc wedi helpu’r plant a’r bobl ifanc hyn i gynllunio ar gyfer eu rhyddhau ac wedi broceru’r cymorth yr oedd ei angen arnynt pan oeddent yn y gymuned.

> *‘Roedd yn rhaid i mi feddwl am opsiynau ar gyfer pethau roeddwn i eisiau eu gwneud a dweud wrthi ... a byddai'n ffonio pobl i roi trefn ar yr holl bethau hynny i mi. Dwi ddim y gorau am roi trefn ar bethau.’*

2.61 Fodd bynnag, dywedodd un unigolyn ifanc mai ychydig iawn o gefnogaeth a gafodd gan y gwasanaethau cymdeithasol a'r Tîm Troseddwyr Ifanc pan oedd yn y ddalfa. Dywedodd ei bod yn anodd cysylltu â'r gweithwyr dynodedig o’r ddwy asiantaeth.

> *‘Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwbl ddiwerth ... yr unig beth mae fy ngweithiwr cymdeithasol wedi'i wneud yw cael dillad i mi ar gyfer angladd [perthynas] a dod o hyd i lety i mi ond ar wahân i hynny dwi ddim yn clywed ganddi am fisoedd ... yn enwedig pan oeddwn angen cymorth, wnaeth hi ddim*

*byd mewn gwirionedd. Doedd fy ngweithiwr o'r Tîm Troseddwyr Ifanc ddim yn poeni dim chwaith - dim ond fy rhoi yng nghefn ei feddwl fwy neu lai.'*

2.62 Roedd un unigolyn ifanc wedi troi'n 18 oed yn ddiweddar ac yn disgwyl cael ei drosglwyddo i garchar i oedolion. Nid oedd yn teimlo bod unrhyw un wedi ei baratoi ar gyfer y pontio hwn, ond roedd yn rhagweld y byddai'n wahanol iawn. Roedd wedi bod mewn gofal o'r blaen ac wedi cael gweithiwr 'gadael gofal' ond roedd yn ansicr pa gymorth a gynigir iddo pan fyddai'n cael ei ryddhau oherwydd ei fod bellach dros 18 oed.

*'Clywais fod llawer llai y gallan nhw ei wneud unwaith rwyt ti'n troi'n 18 oed. Maen nhw eisoes wedi dyrannu gweithiwr gadael gofal a hynny i gyd…. Mae'n camu i mewn pan dwi'n mynd allan, fwy neu lai. Dwi'n gallu siarad â hi am y peth os oes gen i bryderon, ond nid oes unrhyw beth y gall hi ei wneud mewn gwirionedd oni bai fy mod yn dod allan.'*

2.63 Dywedwyd wrth yr unigolyn ifanc hwn bod ganddo le i wneud prentisiaeth ar ôl iddo gael ei ryddhau, ond daeth i wybod yn ddiweddarach nad oedd hyn wedi'i gadarnhau gan y coleg eto. O ganlyniad, teimlai fod y coleg yn blaenoriaethu myfyrwyr prif ffrwd dros y rhai a oedd yn gadael y ddalfa.

*'Mae rhai pobl yn gwneud pethau'n araf, dydyn nhw ddim yn poeni, fel y coleg ... maen nhw'n gwneud popeth i bobl sydd wedi bod trwy'r ysgol, maen nhw'n rhoi llawer mwy o gyfleoedd iddynt.'*

2.64 Roedd unigolyn ifanc arall â phrofiad o ofal y buom yn siarad ag ef wedi cael ei drosglwyddo i'r gwasanaeth prawf pan oedd yn 18 oed. Teimlai fod gwasanaethau cymorth yn gostwng yn sydyn i blant a phobl ifanc cyn gynted ag y byddent yn cyrraedd ei oedran.

*'Mae'n wahanol pan wyt yn symud i'r gwasanaeth prawf. Does dim cefnogaeth: dim ond, 'Rwyt ti'n 18 oed nawr'*

2.65 Roedd yr unigolyn ifanc hwn yn cymharu'r gwasanaeth prawf yn llai ffafriol o gymharu â'r Tîm Troseddwyr Ifanc o ran ei gynnig llai o gymorth, ei ddull llymach, a'r goddefgarwch is i apwyntiadau a gollwyd.

*‘Mae'r ffordd maen nhw'n dy drin di'n hollol wahanol ac rwyt yn oedolyn yn y pen draw ac ... maen nhw'n delio ag ochr gas bywyd, nid gyda'r plant iau sy'n gallu newid.’*

2.66 Ychwanegodd nad oedd y gwasanaeth prawf wedi cynnig unrhyw gymorth arall iddo heblaw am ei lety, nad oedd wedi bod yn llwyddiannus, oherwydd ei fod yn byw mewn hostel ar hyn o bryd ers cael ei wneud yn ddigartref ar ei benblwydd yn 18 oed. Dywedodd fod hyn oherwydd nad oedd ei weithiwr cymdeithasol wedi gwneud digon i ddod o hyd i rywle addas iddo i fyw, er gwneud addewidion i ddod o hyd i fflat iddo pan fyddai’n 18 oed.

*‘Roeddwn i’n ddigartref ar fy mhen-blwydd yn 18 oed, a doedd gen i unman i fynd, a doeddwn i ddim yn cael mynd yn ôl i mewn i’m cartref gofal oherwydd fy mod i’n 18 oed bellach. Felly’r bore hwnnw, cefais fy nhaflu allan gyda fy holl bethau a dim unman i fynd oherwydd nad oedd fy ngweithiwr cymdeithasol wedi dod o hyd i unrhyw le i mi fynd.’*

**Ymchwil a gwerthuso**

*Adborth plant a phobl ifanc*

2.67 Roedd y rhan fwyaf o’r plant a’r bobl ifanc y buom yn siarad â nhw’n gwerthfawrogi cael y cyfle i gymryd rhan mewn ymchwil ac i Lywodraeth Cymru, partneriaid cyflenwi a darparwyr gwasanaethau glywed eu barn.

2.68 Roedd rhai wedi cymryd rhan mewn ymchwil o'r blaen. Dywedodd y rhan fwyaf o’r plant a'r bobl ifanc hyn hefyd y byddent yn barod i gymryd rhan mewn ymchwil eto yn y dyfodol, er mwyn ceisio gwella pethau i blant a phobl ifanc eraill sydd yn eu sefyllfa nhw yn y dyfodol.

*‘Mae gen i lawer o ffrindiau sy'n mynd mewn i drwbl, a dwi'n gwybod ei fod yn anodd iawn i rai pobl, felly, yn amlwg, rwy'n teimlo ei fod yn well os ydw i'n gallu gwneud pethau ychydig yn well iddyn nhw oherwydd fy mod i wedi gwneud rhywbeth.’*

2.69 Nid oedd rhai yn argyhoeddedig y byddai eu lleisiau'n 'gwneud gwahaniaeth', er bod un unigolyn ifanc yn teimlo y gallai clywed safbwyntiau cyfoedion yn y ddalfa atal eraill rhag cyflawni trosedd a mynd i'r ddalfa yn y dyfodol.

*‘Bydd fy llais yn mynd allan i bobl sydd mewn sefyllfa lle gallen nhw fod ar y ffin honno o ddod i'r ddalfa, a gallen nhw ei glywed gan bobl sydd wedi bod yn yr un sefyllfa honno ... ac sydd bellach yn byw bywydau llawn ar ôl bod trwy eu dedfryd. Eu dewis nhw yw a ydyn nhw’n dewis gwrando ac a ydyn nhw’n gwrando, byddan nhw’n ei osgoi gymaint ag y gallan nhw ac os nad ydyn nhw’n gwrando, yna byddan nhw’n gwneud rhywbeth gwirion a chael eu rhoi yn y ddalfa yn y diwedd ac yn sylweddoli y dylen nhw fod wedi gwrando ar yr hyn yr oedd pobl yn y ddalfa yn ei ddweud wrthyn nhw’n flaenorol.’*

2.70 Dywedwyd nad oedd oedran, rhyw a hil ymchwilwyr yn bwysig i'r bobl ifanc y buom yn siarad â nhw.

*‘Dwi ddim yn categoreiddio pobl. Mae unigolyn yn unigolyn, p’un a yw'n ddu, neu'n wyn. Does dim ots.’*

2.71 Dywedwyd ei bod yn bwysicach deall anghenion a dewisiadau plant a phobl ifanc (gan gynnwys sut a phryd y dylid cynnal yr ymchwil), a'u trin â pharch wrth eu cynnwys mewn ymchwil.

*‘Dylai fod yn iawn cyn belled â bod ganddyn nhw ddealltwriaeth niwtral o sut mae'r unigolyn ifanc hwnnw a beth yw ei anghenion a sut i siarad â fe mewn ffordd y byddant yn ei ddeall.’*

2.72 Tynnodd un unigolyn ifanc arall sylw at bwysigrwydd ystyried cyflwr emosiynol plant a phobl ifanc cyn eu cynnwys mewn ymchwil.

*‘Mae'n dibynnu ar sut mae'r unigolyn yn dod ymlaen. Pe bai hyn rhyw dri mis yn ôl, ni fyddwn yn eistedd yma ar hyn o bryd. Mae'n debyg y byddwn yn dy anwybyddu oherwydd fy mod mewn lle tywyll pan gyrhaeddais yma'n gyntaf, ond mae'n dibynnu ar feddylfryd yr unigolyn hwnnw ar y pryd.’*

2.73 Dywedodd rhai o'r plant a'r bobl ifanc y byddai'n well ganddynt osgoi cymryd rhan mewn ymchwil yn y bore ac yn hytrach byddai'n well ganddynt sesiwn brynhawn neu gyda'r nos. Roedd nifer o'r farn y byddai ymchwil dan arweiniad cymheiriaid yn haws ac yn *'fwy sgyrsiol'* oherwydd y gall y plant a'r bobl ifanc fod yn fwy agored gyda rhywun sydd â phrofiadau tebyg.

2.74 Pan ofynnwyd iddynt sut yr hoffent roi adborth yn y dyfodol, ni fyddai'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn awyddus i roi adborth trwy banel. Dywedodd rhai y byddent yn ystyried rhannu gwybodaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol, fel TikTok.

2.75 Dywedodd rhai o'r plant a'r bobl ifanc y byddent yn teimlo'n anghyfforddus yn cymryd rhan mewn sesiwn ymchwil grŵp ac y byddai'n well ganddynt siarad ag ymchwilydd mewn sesiwn un-i-un.

> *'Dwi ddim yn siŵr am grŵp. Dwi wir ddim yn hoff o lawer o bobl.'*

2.76 Fodd bynnag, dywedodd eraill y byddai ganddynt ddiddordeb mewn gwrando ar brofiadau a barn pobl eraill mewn lleoliad grŵp.

> *'Hoffwn glywed am eu profiadau ... dwi ond yn gwybod beth mae fy ffrindiau wedi bod drwyddo, a dyw fy ffrindiau ddim yn debyg i mi ... Gan nad yw fy ffrindiau'n debyg i mi, mae'n debyg bod eu barn a'u hagwedd yn hollol wahanol i fy rhai i.'*

2.77 Nid oedd y plant a'r bobl ifanc yn awyddus iawn i ysgrifennu dyddiaduron fel rhan o brosiectau ymchwil.

> *'Rwy'n meddwl y byddwn i'n mynd ar goll; Rwy'n dueddol o roi pethau'n ddiogel a pheidio gallu dod o hyd iddyn nhw eto.'*

> *'Dwi ddim yn gwybod am ysgrifennu oherwydd bod hynny'n cymryd dipyn o amser ac yn dipyn o ymdrech. Rwy'n hapus i gael sgwrs.'*

### Goruchwyliaeth o'r system

*Adborth rhanddeiliaid*

2.78 Fel y nodwyd ym mhrif gorff yr adroddiad, mae'r broses o oruchwylio system y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid wedi dod i ben ers i Asiantaeth yr Amgylchedd gael ei chomisiynu. Cyflwynir adborth rhanddeiliaid yma, er gwybodaeth.

Mae'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yn nodi bod angen trefniadau goruchwylio a phartneriaeth cadarn er mwyn darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn effeithiol.

Bydd opsiynau'n cael eu harchwilio ar gyfer y canlynol:

- Dull cenedlaethol wedi'i lywio gan drawma ar gyfer darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Bydd hyn yn gofyn am drefniadau partneriaeth parhaus rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i alluogi arfer swyddogaethau priodol ar y cyd i gyflawni'r Glasbrint ac ymgorffori systemau a threfniadau newydd.

- Cryfhau trefniadau partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi Cymru, y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc yn y Ddalfa, a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn galluogi arfer y swyddogaethau priodol i gyflawni'r Glasbrint mewn modd cydgysylltiedig ac ymgorffori systemau a threfniadau newydd.

2.79 Gofynnwyd i randdeiliaid sut olwg ddylai fod ar y System Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru. Gwnaethant amrywiaeth o argymhellion, gan gynnwys y dylai'r System Cyfiawnder Ieuenctid wneud y canlynol:

- Mabwysiadu dull cyfiawnder cymdeithasol sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf. Er bod hyn yn rhan allweddol o bolisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc, teimlai rhai rhanddeiliaid nad oedd wedi'i gyflawni'n llawn.
- Cadw'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid i sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal mewn Timau Troseddwyr Ifanc ac asiantaethau partner, er i un o'r rhanddeiliad awgrymu y dylai'r Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid gael trosolwg mwy cyflawn o faterion sy'n benodol i Gymru.
- Cael eu datganoli'n llawn yn y dyfodol i sicrhau'r safonau gofal gorau i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod natur lled-ddatganoledig cyfiawnder ieuenctid wedi ychwanegu cymhlethdod diangen, wedi achosi oedi i wasanaethau i blant a phobl ifanc, ac wedi golygu nad oedd anghenion unigryw plant a phobl ifanc Cymru bob amser yn cael eu hystyried yn llawn, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.

*‘Rydym wedi cymryd camau breision o ran sut mae cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru wedi gwella, datblygu a chyflawni canlyniadau i blant sy'n ymwneud â chyfiawnder ieuenctid. Mae gennym … rai mentrau sy'n arwain y sector … Weithiau, nid yw'r materion i Dimau Troseddwyr Ifanc yn Lloegr yn berthnasol i'r Timau Troseddwyr Ifanc yng Nghymru … Mae gennym ein hiaith ein hunain yma yng Nghymru. Mae gennym agwedd wahanol iawn.’*

*‘Mae cymhlethdod bod rhai'n ddatganoledig, a rhai heb eu datganoli yn broblematig. Nid oes dull cyson, nid oes canlyniadau cyson …. nid yw’r ffordd y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydberthyn yn helpu cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, felly [hoffwn] weld elfen fwy datganoledig o’r elfen cyfiawnder ieuenctid. Ac os yw hynny'n golygu y dylid edrych ar ddatganoli plismona er mwyn i bob cyfiawnder troseddol yng Nghymru gael lens Gymreig, yna byddwn yn cefnogi hynny.’*

- Meddu ar strwythur llywodraethu ac atebolrwydd cyffredinol i feithrin diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw, i sicrhau bod yr holl asiantaethau partner yn cael eu dwyn i gyfrif, ac i hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yng Nghymru a Lloegr.

*‘Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud llai o waith goruchwylio wrth ddarparu ei gwasanaethau sydd wedi'u datganoli. Mae’n gwneud hynny i raddau helaeth gyda rhai trefniadau ariannu sydd ganddi ar waith, ond nid wyf yn credu bod addysg, tai, iechyd, [neu] Gyrfa Cymru wedi cael eu dwyn i gyfrif am yr hyn a wnânt i atal troseddau ieuenctid. Mae'n cael ei adael i'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ... Mae angen rhoi mwy o bwyslais arno fel ymdrech partneriaeth.’*

- Cadw'r model presennol o weithredu.

*‘Mae’n edrych fel bod y bobl gywir yn edrych ar yr wybodaeth gywir i fesur a ydynt yn cyflawni’r canlyniadau [y cytunwyd arnynt] ai peidio, sef y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Llywodraeth Cymru, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc yn y Ddalfa i gyd yn dod ynghyd i edrych ar fetrigau allweddol penodol, a phenderfynu a ydynt yn hapus ai peidio â chyfundrefn arolygiaeth annibynnol wedi’i gosod ar ben hynny … dyna yn y bôn*

*sydd gennym ar hyn o bryd, ac nid wyf yn meddwl bod unrhyw beth o'i le ar hynny, a dweud y gwir.'*

**Heriau trosfwaol ac adborth arall**

2.80 Yn ôl y rhanddeiliaid, roedd cyflawni nodau'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yn dibynnu ar oresgyn ystod o heriau trosfwaol. Codwyd llawer o'r rhain hefyd mewn perthynas â'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod.

- Cyllid cynaliadwy, tymor hwy i asiantaethau partner barhau i ddarparu gwasanaethau a chyflogi staff.

*'Mae un o fy mhryderon parhaus bob amser yn ymwneud â chyllid tymor byr … mae cynlluniau a chyfleoedd ariannu blynyddol yn eithaf niweidiol, yn enwedig gyda'r trydydd sector, o ran gallu sicrhau canlyniadau cadarnhaol … weithiau, mae'n eithaf anodd cael adnoddau cynaliadwy. Rydym yn aml yn wynebu swyddi gwag oherwydd cyllid.'*

- Sicrhau bod y Glasbrintiau yn parhau i gael eu blaenoriaethu er gwaethaf newidiadau yn y llywodraeth, staff allweddol, a blaenoriaethau.

*'Rwy'n teimlo ei fod wedi colli gafael ar bethau ar hyn o bryd gyda'r newidiadau i weinidogion a'r newidiadau yn y llywodraeth ... dwi'n teimlo, efallai, bod yr egni oedd yno ar y dechrau yn pylu oherwydd ei fod wedi cymryd cymaint o amser.'*

- Sicrhau bod gan staff strategol a gweithredol ddigon o amser i ganolbwyntio ar gyflawni'r Glasbrint.

*'Rwy'n meddwl bod pawb yn rhoi mwy o amser i mewn nag y maent yn cael ei gyfrif amdano yn yr ystyr hwnnw mewn gwirionedd. Ond y peth allweddol yw … cael y cydberthnasau strategol hynny a digon o ymddiriedaeth yn yr uwch arweinwyr hynny, p'un a ydynt yn gweithio mewn lleoliad datganoledig neu leoliad heb ei ddatganoli.'*

- Adennill unrhyw gynnydd a gollwyd oherwydd COVID-19 yn gyflym.

*'Mae adferiad wedi pandemig yn [her], a dyrannu adnoddau i wneud y pethau sylfaenol hyd yn oed, fel cael gwasanaethau yn ôl i'r hen arfer sy'n anodd iawn yn y system cyfiawnder troseddol pan rydyn ni'n sôn am bobl beryglus sydd wedi cael eu goruchwylio mewn ffordd wahanol oherwydd yr holl gyfyngiadau.'*

- Meddu ar y seilwaith rheoli cywir i gyflawni'r newidiadau mewn arferion sydd eu hangen i gyflawni'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid (a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod).

*‘Rwy'n meddwl bod gennym y seilwaith i redeg y Glasbrintiau nawr ond ... nawr rydyn ni'n gwybod beth sydd angen i ni ei newid, beth yw'r seilwaith sydd ei angen i weithredu'r newid hwnnw o fewn asiantaethau? Ac nid wyf yn siŵr a ydym wedi mynegi sut olwg sydd ar hynny.’*

- Dull cydgysylltiedig a chyson o gyflawni'r Glasbrint rhwng yr holl ffrydiau gwaith a mentrau, ac ymrwymiad cyfartal gan yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â'r gwaith.

*‘Weithiau, mae'n teimlo ein bod ni'n gweithio ar wahân o bryd i'w gilydd, yn hytrach na cheisio uno rhai o'r gwahanol elfennau, ac yn aml, gall fod yn rhai o'r un unigolion sy'n cael eu cynrychioli trwy'r gwahanol agweddau.’*

- Ymrwymiad i sicrhau yr ymgynghorir â phlant a phobl ifanc yn ystyrlon ac yn barchus, a bod eu hadborth yn cael ei integreiddio wrth gynllunio a darparu gwasanaethau wrth symud ymlaen.

*‘Un o'r blaenoriaethau yw trin plant â thegwch, tryloywder a pharch. Dwi’n meddwl bod y rheini’n hawdd i’w dweud, ond mae’n anodd iawn eu gwneud os nad oes gennych yr elfen o gyfranogiad i’r gwaith yr ydych yn ei wneud, ac nid yw pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi na’u clywed o fewn y gwasanaeth. Ac nid yw plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi mewn llawer iawn o wasanaethau.’*

- Gweithio ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i wneud penderfyniadau o ran y polisïau sy’n iawn i blant a phobl ifanc Cymru.

*‘Rwy'n meddwl, os ydym am wneud gwelliannau gwirioneddol, mae angen i ni edrych ar yr elfen ddatganoledig a'r elfen heb ei datganoli a gwneud rhai argymhellion i Lywodraeth y DU ar wneud rhai penderfyniadau.’*

- Amlinellu set o ganlyniadau clir ar gyfer y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod i fynegi'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni.

*‘Dydyn ni ddim yn gwybod sut i ddisgrifio'r hyn mae'r Glasbrintiau yn ei wneud. A dweud y gwir, mae’r diffyg canlyniadau gwirioneddol, caled a sylweddol a ddylai fod wedi bod yn dod i’r amlwg yn awr i gadw diddordeb pobl yn fater sydd angen sylw.’*

# 3. Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru

**Ymyrraeth gynnar ac atal**

*Adborth rhanddeiliaid*

3.1 Roedd rhywfaint o deimlad bod hon yn un o brif flaenoriaethau'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod. Pwysleisiodd y rhanddeiliaid fod ymyrraeth gynnar, atal a dargyfeirio yn helpu i atal labelu a throseddoli menywod, gan leihau effaith negyddol mynd i mewn i'r system gyfiawnder ar eu bywydau a'u cyfleoedd yn y dyfodol. Roeddent hefyd yn cael eu hystyried yn hanfodol o ran atal aildroseddu a'r cynnydd mewn troseddau gwael, ac wrth atal niwed i ddioddefwyr.

> *'Os ydym yn ymyrryd yn gynnar ac yn gallu atal niwed, cam-drin, troseddu, wedyn rydym yn arbed dioddefwyr rhag niwed ac yn atal pobl rhag mynd i lwybrau cyfiawnder troseddol ... Gwyddom ... os yw pobl yn troseddu ac yn parhau i droseddu, yna mae'n anoddach i ymyrryd a'u cymryd oddi ar lwybr o droseddu os byddwn yn eu dal yn ddiweddarach. Ond os byddwn yn cymryd rhan yn gynnar iawn ac yn targedu'r arbenigedd cywir a'r ymyriadau cywir … cyn gynted â phosibl, yna mae'n haws eu tynnu oddi ar y llwybr hwnnw o droseddu. Ond hefyd, i mi, mae'n ymwneud â chydnabod bod gan bawb botensial, gan gynnwys pobl sy'n troseddu. Ac os gallwn eu helpu i gyflawni'r potensial hwnnw heb droseddu, yna maent yn fwy tebygol o allu cael bywydau bodlon sy'n parchu'r gyfraith.'*

3.2 Mae effaith gadarnhaol gwneud hynny ar eu teuluoedd, yn enwedig eu plant, yn arbennig o bwysig i randdeiliaid mewn perthynas ag atal menywod rhag mynd i mewn i'r System Cyfiawnder Troseddol.

> *' … yn hanesyddol, nid oedd y llwybrau ymyrraeth gynnar yn bodoli, yn enwedig o safbwynt menywod. Felly, rwy'n meddwl bod yr elfennau hynny o'r Glasbrint yn arbennig o berthnasol … gan gydnabod effaith troseddoli yn y tymor hwy ... Yn amlwg, o ran menyw sy'n oedolyn, nid yn unig y mae'n effeithio arni hi ond hefyd … ei phlant, ei theulu ehangach, a'r gymuned y mae'n byw ynddi ...'*

3.3 Canmolodd rhanddeiliaid y ddarpariaeth o wasanaethau wedi'u llywio gan drawma sy'n ystyried popeth, nid yn unig y profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Ystyriwyd bod darpariaeth o'r fath yn hanfodol er mwyn lleihau'r risg y byddai

menywod *'wedi'u gwreiddio'* yn y system, ac o'u plant yn dioddef Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod eu hunain o ganlyniad i hynny.

*'... mae'r rhan fwyaf o'n menywod wedi cael Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod ... neu drawma o berthnasoedd ... ac os gwneir hynny'n dda, nid yw'n cael ei drosglwyddo i lawr y cenedlaethau. Rwy'n teimlo po fwyaf y gallwch chi ei wneud, y lleiaf y mae'n debygol o gael effaith ar y genhedlaeth nesaf hefyd.'*

3.4 Roedd y gwaith o gynllunio gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar sydd wedi'u llywio gan drawma ac sy'n ymateb i drawma hefyd yn cael ei ystyried yn allweddol i sicrhau bod menywod yn cael y cymorth cywir gan y sefydliad cywir – er enghraifft drwy nodi'r rhai sydd angen gwasanaethau iechyd yn hytrach nag ymyrraeth cyfiawnder troseddol.

*'Mae'r flaenoriaeth o ran llywio popeth gan drawma [yn] sylfaen i bob ffrwd waith yr ydym yn ei chyflawni … Mae'r angen i ddeall pam ein bod yn nodi menywod yn y system a ddylai … fod o dan y gwasanaethau iechyd, sy'n profi trawma sylweddol, yn allweddol i ddeall sut rydym yn dylunio'r gwasanaeth … o'r cychwyn cyntaf drwy gynnwys y gwasanaethau sy'n cael eu llywio gan drawma … '*

3.5 Nodwyd aliniad y flaenoriaeth â pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU – ym maes cyfiawnder troseddol ac iechyd y cyhoedd yn ehangach – gan randdeiliaid, yn ogystal â'r angen i'r ddwy lywodraeth barhau i gydweithio i'w cyflawni.

*'I mi, mae'r thema o ymyrraeth gynnar sy'n rhedeg drwy'r ddau Lasbrint yn rhywbeth sy'n cyd-fynd i raddau helaeth â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru; gan fabwysiadu'r math hwnnw o safiad ymyrraeth gynnar / atal yn gadarn iawn…'*

*Adborth menywod*

3.6 Roedd nifer o'r menywod a gyfwelwyd yn cymryd rhan mewn rhaglenni dargyfeirio ar hyn o bryd. Roeddent yn cael amrywiaeth o gyngor a chymorth wedi'u harwain gan anghenion drwy'r rhaglenni hyn, gan gynnwys cymorth i gael mynediad at y canlynol:

- Llety priodol;
- Gwasanaethau iechyd fel meddygon teulu a deintyddion;

- Cwnsela;
- Cymorth gan wasanaethau cymdeithasol;
- Parseli bwyd;
- Gwasanaethau cymorth ar gyfer cam-drin domestig
- Rhaglenni y telir amdanynt fel y rhaglen Rhyddid;
- Triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau.

3.7 Roedd gweithwyr cymorth y rhaglen ddargyfeirio hefyd wedi helpu menywod a gymerodd ran i fynd ar ôl gwasanaethau cymdeithasol a chyfreithwyr am wybodaeth neu ddiweddariadau cynnydd.

3.8 Cyn dechrau'r rhaglen ddargyfeirio, nid oedd y rhan fwyaf o'r menywod y buom yn siarad â nhw wedi cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt, yn aml er iddynt ofyn amdano dro ar ôl tro. Roedd y diffyg cymorth hwn wedi achosi i faterion y menywod hyn fynd allan o reolaeth, gan eu harwain at bwynt argyfwng a arweiniodd at eu troseddu.

> *'Hyd at y pwynt hwnnw, roeddwn i'n teimlo fel nad oedd neb yn gwrando arna i, fel nad oeddwn i'n cael fy nghlywed ac roeddwn i'n mynd i fynd i fwy o drafferth nawr, ac wedyn gwelodd [enw] y ditectif y bues yn siarad ag ef ar yr adeg honno, fy mod i'n ddiffuant, ac roeddwn i angen help ac nid oeddwn yn ei gael.'*

> *'Dwi wedi bod yn aros am gyfnod hir i weld cwnselwyr a therapyddion a phan wyt yn aros, rwyt yn colli gobaith. Arhosais cyhyd fel fy mod i wedi colli gobaith a cholli'n hun mewn ffordd a doeddwn i wir ddim eisiau bod yma bellach a dyna wnaeth arwain i fi fynd i helyntion yn y diwedd.'*

3.9 Ategwyd hyn gan fenyw sydd yn y ddalfa ar hyn o bryd ac a oedd, mewn gwirionedd, wedi treulio llawer o'i chyfnod fel oedolyn ifanc i mewn ac allan o'r carchar. Daeth i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf yn ifanc iawn, ond nid oedd hyn erioed wedi arwain at unrhyw fath o raglen ddilynol neu ddargyfeirio. Roedd wedi cael rhywfaint o fewnbwn gan y gwasanaethau cymdeithasol fel plentyn ond nid oedd hyn yn ddefnyddiol gan ei bod yn meddwl mai 'ticio blychau' yn unig ydoedd.

*'Roeddwn i'n arfer cael llawer o weithwyr cymdeithasol yn dweud, "A oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i chi?" ac ni waeth faint o weithiau rwyt ti'n dweud "Allwch chi roi trefn ar hyn? Allwch chi wneud hynny?", ni wnaethon nhw erioed ... Dim ond ticio blychau oedden nhw; doedden nhw ddim [yn poeni] am yr hyn roeddech chi ei eisiau a beth fyddai'n eich gwneud chi'n well.'*

3.10 Dywedodd pob un o'r menywod a oedd yn dilyn rhaglen ddargyfeirio a fynegodd y farn hon fod eu gweithiwr cymorth rhaglen wedi bod yn allweddol i frocera'r cymorth yr oedd ei angen arnynt yn dilyn eu harestio a'u hatgyfeirio i'r rhaglen. Roedd y rhan fwyaf yn canmol y cymorth yr oeddent yn ei gael, ac yn canmol y staff oedd yn cyflwyno'r rhaglen ddargyfeirio. Roedd adborth cadarnhaol yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Ymddygiad dymunol a chyfeillgar y staff ac roedd yn hawdd mynd atynt.

*'Yr unigolyn wnes i siarad â hi ... roedd hi'n hyfryd ac yn llawn cydymdeimlad ac roedd hi'n barod iawn i helpu.'*

- Y cydberthnasau ymddiriedus a feithrinwyd rhwng defnyddwyr gwasanaeth a staff.

*'Mae hi wedi bod yn wych, ac fe ffoniodd hi fi'r bore 'ma i wirio a ydw i'n iawn ac mae ganddi'r agwedd fel "dere mlaen, mae angen i ti cael trefn ar dy hun," ac mae hi wedi bod yn hollol wych a dweud y gwir. Mae hi'n rhywun y gallaf siarad â hi, a dwi'n cael anhawster i siarad â gwahanol bobl, ond enillodd fy hyder yn syth ac roeddwn i'n teimlo'n hapus iawn, a gallaf siarad â hi am unrhyw beth.'*

- Agwedd gefnogol ac anfeirniadol y staff.

*'Wrth siarad â hi, doedd hi ddim yn fy meirniadu – roedd hi'n ddeallus iawn. Roedd hi'n braf iawn siarad â hi hefyd.'*

- Dibynadwyedd a pharodrwydd y staff i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, hyd yn oed ar ôl iddynt adael y rhaglen.

*'Mae hi wirioneddol yn hyfryd iawn ac yn dweud "Dwi yma i dy gefnogi di, dyma fy rhif i, dwi ddim yn dy adael di ar ben dy hun oherwydd bod ein sesiynau wedi dod i ben."*

- Roedd y staff yn annog menywod i fynegi eu hanghenion cymorth ac yn cymryd camau i'w diwallu heb fod yn rymus.

*'… roedd hi'n holi "A allaf eich helpu gydag unrhyw beth? Wyt ti angen help gydag unrhyw beth? Beth am dai?" ond heb fod yn wthiol. Ni fyddai'n dweud "Iawn, dwi'n mynd i dy helpu i roi trefn ar ddod o hyd i dŷ nawr." Mae hynny'n cipio rheolaeth (er efallai fy mod yn anghywir). Maen nhw'n penderfynu beth dwi'n ei wneud ac mae hynny'n rheolaeth i mi.'*

- Effaith y cymorth ar helpu'r menywod i gyflawni canlyniadau gwell, megis gwell iechyd meddwl a chysylltiadau teuluol, a chynnydd gydag achosion preswylio plant.

*'Mae'r [gwasanaethau cymdeithasol] yn gallu gweld y newid ynof i nawr ac maen nhw'n gallu gweld bod fy mab yn well gyda mi nawr, oherwydd y gefnogaeth dwi wedi'i chael gan y [gweithiwr cymorth]. O'r blaen, roeddwn i'n teimlo nad oedd fy nghyfreithiwr yn gwrando arna i, roeddwn i'n teimlo nad oedd y gweithiwr cymdeithasol yn gwrando arna i ac mae'r [gweithiwr cymorth] wedi cysylltu â nhw ar fy rhan ac mae hi wedi cael eiriolwr i mi nawr, ac maen nhw'n gwrando arno.'*

3.11 Soniodd rai menywod am y rhesymau dros ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol a'r hyn fyddai'n eu helpu i gadw draw oddi wrthi.

3.12 Teimlai rhai bod deall y berthynas rhwng dibyniaeth ar alcohol a / neu gyffuriau yn allweddol. Yn wir, dywedodd un fenyw, pan oedd o dan ddylanwad cyffuriau, y gallai fod wedi cael cynnig yr holl gymorth ataliol oedd ar gael ond y byddai wedi troseddu o hyd i fwydo ei dibyniaeth.

*'Dwi'n meddwl bod gen i broblem gydag alcohol, ac mae gen i natur fyrbwyll ac mae hynny'n achosi i mi fod yn llai ymatalgar sy'n golygu y gallaf fynd i helyntion. Mae angen i mi gadw draw oddi wrth alcohol … mae'n debyg fy mod yn gweld bod llawer o bethau'n disgyn i'w lle os ydwyf [yn cadw draw oddi wrtho].'*

*'Dwi'n meddwl ei fod yn dibynnu ar yr unigolyn ar y pryd ac os wyt ti angen eu help ai peidio ... dwi wedi cael cynnig yr help lawer o weithiau ac wedi llithro'n ôl yn y pen draw, Duw a ŵyr faint o weithiau.… Waeth beth a roddwyd i mi, fyddwn i ddim wedi gwrando.'*

3.13 I eraill, roedd yn ymwneud â dysgu i ddeall eu *'pwyntiau sbarduno'* ac roedd eu gweithiwr cymorth rhaglen ddargyfeirio yn eu helpu i ddeall y rhain.

*'Dyma'r peth troseddol cyntaf [dwi] wedi gorfod delio ag ef ... Mae hi wedi rhoi llwyth o gyngor i mi – llwythi a llwythi, ar sut i ddelio â phethau.'*

3.14 Clywsom hefyd fod rhai menywod wedi troseddu oherwydd rhwystredigaeth ac anghytuno â materion preswylio plant annheg a / neu amhriodol.

*'Roeddwn i'n colli'r plot. Roeddwn i'n fam a oedd eisiau cyrraedd ei mab, ac roeddwn i'n teimlo nad oedd unrhyw beth nac unrhyw un yn gallu fy rhwystro. Doeddwn i ddim yn poeni. Y cyfan roeddwn i eisiau oedd fy mab.'*

3.15 Gofynnwyd i un fenyw, a oedd yn y ddalfa ar hyn o bryd yn dilyn cysylltiad hirdymor â'r system cyfiawnder troseddol, a allai unrhyw beth fod wedi'i ddarparu pan oedd hi'n iau a fyddai wedi ei helpu. Awgrymodd pe bai rhywbeth fel clwb ieuenctid wedi bod yn ei hardal leol, efallai y byddai wedi gallu aros allan o drwbl.

*' … clwb ieuenctid neu rywbeth felly i blant a phobl ifanc i'w cadw allan o drwbl.'*

3.16 Wrth feddwl ar ei harestiad, dywedodd un fenyw y byddai wedi bod yn well ganddi pe bai swyddogion benywaidd wedi delio â hi yn hytrach na'r saith swyddog gwrywaidd a gyrhaeddodd. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen i fabwysiadu dull wedi'i lywio gan drawma. Roedd hyn oherwydd ei phrofiad blaenorol o gael ei threisio. Ni chafodd ei holi am unrhyw drawma neu faterion iechyd corfforol neu feddyliol blaenorol (yr oedd wedi profi pob un ohonynt) gan y swyddogion arestio nac wedi cael cyfle i wneud trefniadau gofal ar gyfer y plentyn yr oedd ganddi gartref, a chafodd ei rhoi ar ei phen ei hun yng nghefn car heddlu gyda swyddog gwrywaidd. Achosodd hyn iddi gael pwl o banig.

*'Ni allwn anadlu, hyd yn oed pan oeddwn yn dod i mewn. Roeddwn yn cael pyliau o banig ac nid oeddent yn gallu deall. Teimlais nad oedd swyddogion gwrywaidd [yn gallu deall], ac roedd yn rhaid iddynt fod yn ymwybodol hefyd, a dylai swyddogion heddlu benywaidd fod wedi delio â mi yn hytrach na dynion.'*

3.17 Pwysleisiodd y cyfwelai hwn bwysigrwydd holi menywod am eu hanes, gan gynnwys trawma a phroblemau iechyd meddwl, pan fyddant yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf.

*'Dyna'r peth cyntaf rwyt ti am i rywun ei ddweud: "Sut wyt ti'n teimlo?"'*

3.18 Dywedwyd y byddai cefnogaeth bellach yn cael ei darparu gan gynghorydd cymheiriaid ar ôl cyrraedd yn nalfa'r heddlu hefyd yn cael ei chroesawu. Dylai fod

gan gwnselwyr cymheiriaid brofiad personol o'r system cyfiawnder troseddol i sicrhau eu bod yn deall profiadau eraill yn llawn ac yn gallu eu cefnogi heb farnu.

> *‘Byddwn i wedi bod yn llawer tawelach pe bawn i wedi bod mewn sefyllfa lle roedd merch wedi bod trwy'r hyn oedd gen i, ac roedd hi yno pan gyrhaeddais [i'r orsaf heddlu] ... does neb yn gwybod beth sydd wedi digwydd ym mywyd yr unigolyn hwnnw, chwaith. Gall fod yn cymryd cyffuriau neu alcohol. Does neb yn berffaith, a dyna yw ei alwad am help.’*

**Llysoedd a dedfrydu**

*Adborth rhanddeiliaid*

3.19 Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno y dylid ystyried dewisiadau eraill yn lle’r ddalfa ar gyfer bron pob menyw sy’n troseddu, ac yn enwedig y rhai sy’n troseddu ar lefel isel sydd fel arfer yn arwain at ddedfrydau byr. Yn y bôn, dadleuwyd na ddylai menywod gael eu hanfon i’r carchar ac eithrio’r troseddau mwyaf difrifol, a bod goblygiadau negyddol carchar tymor byr, nid yn unig i’r fenyw ei hun, ond hefyd i’w theulu, yn llawer mwy nag unrhyw fuddion.

> *‘Nid ydynt yn mynd i wneud unrhyw beth ystyrlon o ran eu hadsefydlu yn ystod y cyfnod byr hwnnw yn y carchar. Ac unwaith eto, gwyddom y gall y gwahanu hwnnw oddi wrth blant a'r teuluoedd ehangach fod yn arbennig o niweidiol i fenywod ac yn amlwg y sgileffeithiau hynny y mae'n eu cael ar y bobl yn eu bywydau.’*

3.20 Yn galonogol, teimlwyd bod argaeledd dewisiadau amgen yn gwella'n barhaus. Cyfeiriodd y rhanddeiliaid nid yn unig at fentrau penodol fel Dull System Gyfan Cynllun Braenaru i Ferched Future 4 (a gomisiynwyd o dan y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod), ond hefyd at y cyfleusterau monitro electronig sy’n galluogi menywod i barhau i fyw eu bywydau yn eu cymunedau.

*Gwella Adroddiadau Cyn Dedfrydu*[4]

3.21 O ran Adroddiadau Cyn Dedfrydu, gofynnwyd i randdeiliaid am y ffyrdd y gellid eu gwella er mwyn helpu i sicrhau canlyniadau gwell i fenywod. Ymhlith y prif welliannau a awgrymwyd roedd y canlynol:

[4] Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn darparu rhaglen waith ar hyn o bryd gyda'r nod o wella adroddiadau cyn dedfrydu.

- Cynnwys menywod yn well yn eu datblygiad er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.
- Sicrhau eu bod yn cael eu hysgrifennu o safbwynt sydd wedi'i lywio gan drawma ac sy'n ymateb i rywedd.
- Cynnig awdur adroddiadau i fenywod ar gyfer menywod sy'n troseddu.
- Sicrhau bod awduron yn ymwybodol o'r ystod gyfan o ddewisiadau amgen yn y gymuned yn lle'r ddalfa sydd ar gael yn lleol (gan gynnwys y rhai a ddarperir gan y trydydd sector).
- Pwysleisio cryfderau a sgiliau menywod, a'r potensial ar gyfer uwchsgilio.
- Gwella ansawdd yr adroddiadau a'r asesiadau sy'n sail iddynt, fel eu bod yn cael sylw gan ddedfrydwyr.

3.22 Dywedwyd bod gwelliannau i Adroddiadau Cyn Dedfrydu yn amlwg mewn rhai meysydd, gyda chymorth cynlluniau peilot yn edrych, er enghraifft, ar ganllawiau mwy eglur a chymorth cof sy'n helpu ysgrifenwyr adroddiadau i gofio pa feysydd y mae angen eu hystyried a mynd i'r afael â nhw.

*'Rwy'n falch o ddweud y bu llawer o ymdrech i geisio gwella ansawdd a gwella dealltwriaeth awduron Adroddiadau Cyn Dedfrydu o anghenion menywod fel bod yr argymhellion a wneir yn addas, yn gadarn, gyda thystiolaeth a all roi hyder i ddedfrydwyr …'*

3.23 Er hynny, tynnodd sawl rhanddeiliad sylw at effaith 'cyfiawnder cyflym' ar ansawdd Adroddiadau Cyn Dedfrydu, a ddisgwylir yn aml 'ar y diwrnod', gan adael ychydig o amser ar gyfer casglu gwybodaeth ac asesu manwl. Dywedwyd bod hyn yn creu gwrthdaro rhwng sicrhau bod cyfiawnder cyflym yn cael ei wasanaethu, ond mewn ffordd briodol, wybodus a dyfeisgar sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau i'r dioddefwr a'r troseddwr.

*'… yr her fydd ceisio gwneud yn siŵr ein bod yn gallu cael y cyfoeth o wybodaeth i'r llys drwy adroddiadau cyn dedfrydu ond wrth wneud hynny, gwneud yn siŵr ein bod yn gallu cadw at y targedau amseroldeb hynny sy'n ... gyrru'r ffaith bod rhywfaint o wybodaeth brin neu ddim gwybodaeth o gwbl a all helpu dedfrydwyr i wneud eu penderfyniadau.'*

*Adborth menywod ar y llysoedd a dedfrydu*

3.24 Roedd gan ddwy o'r menywod y gwnaethom siarad â nhw achosion llys yn yr arfaeth. Eglurodd y cyfweleion hyn fod gweithwyr cymorth eu rhaglen ddargyfeirio wedi darparu cymorth gwerthfawr cyn ac yn ystod eu hachosion llys. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Darparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r llys i gefnogi eu cymeriad, gan egluro eu bod wedi mynychu pob un o'u hapwyntiadau dargyfeirio.
- Mynychu'r llys ar y diwrnod i roi cefnogaeth foesol.
- Broceru eiriolwr llys.

3.25 Roedd un fenyw oedd wedi profi cael ei dedfrydu am drosedd y cafodd ei chyhuddo ohoni yn teimlo ei bod wedi cael ei thrin yn annheg gan y llys, a bod yr holl broses yn anodd ei deall. Nododd hefyd fod y llys wedi defnyddio'r ffaith ei bod wedi'i magu mewn gofal maeth yn ei herbyn.

*'Y peth gwaethaf yr oedden nhw wedi'i wneud i mi oedd eu bod wedi defnyddio'r ffaith fy mod wedi cael fy magu mewn gofal maeth ... sy'n gwbl ffiaidd.'*

3.26 Ar ben hynny, dywedodd un cyfwelai, a oedd wedi'i ddedfrydu fel plentyn dan oed, nad oedd ganddi unrhyw ddealltwriaeth wirioneddol o'r hyn oedd yn digwydd bryd hynny a'i bod yn teimlo'n gwbl ynysig oherwydd y cysylltiad lleiaf posibl â'i theulu (roedd rhai ohonynt hefyd ar remánd neu fechnïaeth ar y pryd).

*' … rwyt ti newydd fynd â fi oddi wrth fy nheulu i gyd a dwi'n teimlo nad oes gen i ddim byd.'*

3.27 Dywedodd yr un fenyw ei bod yn gallu siarad â'i chyfreithiwr yn ystod yr achos llys a gofyn beth i'w ddisgwyl o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, pan oedd yn rhoi ei thystiolaeth, diflannodd eu cefnogaeth, ac ar ôl ei dedfrydu, nid oedd y fenyw yn teimlo bod ei chyfreithiwr yn gallu ei helpu o gwbl. Awgrymodd y dylid darparu 'oedolyn priodol' ar gyfer menywod dan oed sy'n mynd drwy broses y llys i'w cefnogi gyda'u hanghenion iechyd meddwl yn benodol.

*' … pan oeddwn i'n rhoi tystiolaeth, doeddwn i ddim yn cael siarad â'm cyfreithiwr neu fy margyfreithiwr, felly roeddwn yn teimlo fy mod wedi colli'r holl gefnogaeth … roedd yn frawychus … roedd gen i dîm cyfreithiol eithaf anaddas ar y pryd, i*

*ddweud y gwir ... doedden nhw ddim yn gwybod beth i'w ddweud a beth i'w wneud …'*

3.28 Dywedodd menyw arall, a gafodd ei rhoi ar remánd am ddeg mis cyn y ddedfryd, nad oedd hi'n gwybod beth i'w ddisgwyl o broses y llys ac ni wnaeth ei chyfreithiwr ei pharatoi ar ei chyfer naill ai cyn nac yn ystod yr achos.

*'Roeddwn i'n naïf ... Roedd fy nghyfreithiwr wedi fy ngadael, doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd yn digwydd. Roedd yn ofnadwy, gan nad oeddwn yn gwybod beth oedd yn digwydd ... a phan oeddwn yn yr achos llys, fe wnaethon nhw guddio llawer o bethau oddi wrthyf.'*

3.29 I'r gwrthwyneb, dywedodd un arall a oedd wedi cael profiad o gael ei dedfrydu ei bod yn deall proses y llys, a'i bod yn cael ei thrin yn deg ac yn cael ei hysbysu'n dda drwyddi draw. Fodd bynnag, roedd y ffaith bod ei hachos wedi cymryd 18 mis i gyrraedd y llys wedi cael effaith negyddol ar ei gallu i fyw ei bywyd drwy gydol y cyfnod hwnnw.

*'Rhoddodd fi ar remánd am y pythefnos olaf er mwyn gwneud yr adroddiad cyn dedfrydu ... pe bai wedi fy roi ar remánd yn ôl ar y dechrau, byddai wedi bod yn amser o fwrw dedfryd. Felly gwnes i ddwy ddedfryd oherwydd fe wnes i fwrw dedfryd ar y tu allan oherwydd ei fod yn hongian drosof ... wrth edrych yn ôl, dwi'n meddwl y dylen nhw fod wedi fy rhoi ar remánd oherwydd roeddwn i'n dal i geisio byw fy mywyd ond yn gwybod i beidio â byw fy mywyd yn ormodol hefyd ... achos fy mod yn mynd i'r carchar.'*

3.30 Dywedwyd hefyd ei bod yn anodd yn emosiynol i ddelio â gohiriadau cyson oherwydd y straen o orfod aros am sicrwydd.

*'Yr unig beth y byddwn i'n ei newid yw'r broses – i ddeilio ag ef yn hytrach nag aros a'i ohirio…. Byddai gennych y baich hwnnw ar eich ysgwyddau eto ar gyfer yr achos llys nesaf.'*

3.31 Bu cyfwelai gwahanol yn trafod ei phrofiadau o fynd i'r llys i dystio fel dioddefwr trosedd. Teimlai hefyd fod proses y llys yn hawdd i'w deall ac ychwanegodd ei bod yn teimlo ei bod yn cael ei chefnogi a'i diogelu'n dda gan asiantaethau cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cymorth allanol drwy gydol ei phrofiad yn y llys. Fodd bynnag, rhannwyd safbwynt gwahanol gan fenyw arall a oedd wedi bod yn yr un

sefyllfa. Cafodd ei dychryn gan y diffyg diogelu a oedd ar waith ar ei chyfer, cyn, yn ystod ac ar ôl y gwrandawiad llys.

*‘Roedd yn ofnadwy. Doeddwn i ddim yn gallu mynd mewn ar y diwrnod olaf yn y llys oherwydd fy mod i mor wael. Yr unig beth oedd ar fy meddwl oedd y ffaith y gallai ddod allan o'r llys ac fy nghael i.'*

3.32 Bu peth trafodaeth ar degwch a phriodoldeb llysoedd a dedfrydu i fenywod. Mewn rhai achosion, rhoddodd y menywod y buom yn siarad â nhw enghreifftiau o achosion lle roedd y llysoedd wedi trin menywod yn deg, yn briodol ac yn barchus.

3.33 Dywedodd menyw oedd wedi derbyn dedfryd o garchar fod ei dedfryd yn deg, o ystyried difrifoldeb ei throsedd. Teimlai’r cyfwelai fod y llys wedi gwrando arni ac wedi meddwl am ei hanghenion wrth ei dedfrydu.

*‘Cefais fy nhrin yn deg wrth gael fy arestio a chefais achos llys teg, am wn i ... Er fy mod wedi pledio'n 'ddieuog', wnes i ddianc â chosb ysgafn … Ymddiheurodd y barnwr. Dywedodd ei fod yn ddrwg ganddo, ond bod yn rhaid iddo roi carchar i mi, a'r lleiafswm y gallai ei roi i mi oedd 15 mis…’*

3.34 Fodd bynnag, teimlai menyw arall bod neb wedi gwrando arni, yn enwedig mewn perthynas ag effaith dedfryd o garchar ar ei phlant a'i hanghenion iechyd meddwl nas diwallwyd.

*‘… Ysgrifennais lythyr at y barnwr, a’i roi i'm cyfreithiwr. Ni wnaeth hi byth roi'r llythyr i'r barnwr. Felly, roedd popeth a ysgrifennais yn y llythyr hwnnw yn [lliniariad] ... dwi'n siŵr y byddwn wedi cael dedfryd lai.'*

3.35 I'r gwrthwyneb, rhoddwyd enghreifftiau eraill o achosion pan ganfuwyd bod llysoedd wedi trin menywod yn rhy llym, er enghraifft, yn cael dirwy fawr am gario ychydig o ganabis. Dywedwyd bod hyn oherwydd natur y system cyfiawnder troseddol sydd wedi’i llywodraethu gan ddynion, ac yn arbennig o berthnasol i ferched a menywod iau.

*‘Dwi'n meddwl ei fod ychydig yn wirion weithiau, a dwi ddim yn gwybod a oes llawer o feirniaid benywaidd neu unrhyw beth felly, ond dwi'n meddwl weithiau y gall fod ychydig yn rhywiaethol o ran barnwyr a menywod ifanc. Nid yw'n ymwneud â menywod hŷn cymaint oherwydd eu bod yn gwybod eu hawliau*

*ychydig yn well na menywod ifanc, a dwi'n meddwl ei fod ychydig yn rhywiaethol pan fydd wedi'i anelu at y menywod iau.'*

*'Dwi'n meddwl ei fod yn dipyn o bopeth a dweud y gwir. Dwi'n meddwl mai'r ffaith [fy mod] yn fenyw, y ffaith o'n hoedran, o ble roeddwn yn dod. Dwi'n meddwl bod gan bopeth ran i'w chwarae …'*

3.36 Dywedwyd y gellid mynd i'r afael yn rhannol â'r ffordd y caiff menywod a merched eu trin gan y llysoedd drwy gael cydbwysedd rhwng rheithwyr gwrywaidd a benywaidd a staff asiantaeth amrywiol.

*'Rwy'n meddwl bod rhywfaint o ragfarn yn erbyn menywod, ac ymhlith rhai rheithwyr neu ynadon efallai. Rwy'n meddwl y dylai fod cydbwysedd da iawn o ynadon a rheithwyr, cyfreithwyr a bargyfreithwyr gwrywaidd a benywaidd yn gyffredinol - yn ddynion ac yn fenywod - i sicrhau bod cymysgedd da iawn. A byddai hynny'n ddefnyddiol i fenywod.'*

**Atebion cymunedol**

*Adborth rhanddeiliaid*

3.37 Ystyriwyd bod darparu atebion yn y gymuned sy'n canolbwyntio ar fenywod yn hanfodol i lwyddiant y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod, oherwydd na ellir cyflawni'r egwyddor sylfaenol o anfon llai o fenywod i'r carchar hebddynt.

3.38 Ar ben hynny, dywedwyd bod tystiolaeth yn dangos bod cyfraddau troseddu ac aildroseddu yn cael eu dylanwadu'n gadarnhaol pan fydd gan bobl ran yn eu cymunedau, a chefnogaeth ganddynt. Fel y cyfryw, ystyriwyd ei bod yn hanfodol lleoli menywod yn eu hardaloedd lleol pryd bynnag y bo modd, gan dderbyn gwasanaethau ac ymyriadau fel aelodau o'r gymuned yn hytrach na phobl sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol.

3.39 Cyfeiriodd un neu ddau o randdeiliaid at y gostyngiadau sylweddol yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael dedfrydau o garchar. Roeddent yn falch o weld bod y syniad a dderbyniwyd na ddylai plant a phobl ifanc gael eu hanfon i'r carchar ac eithrio yn yr amgylchiadau prinnaf o ddifrifol hefyd yn cael ei gydnabod mewn perthynas â menywod.

*'Rwy'n meddwl bod yr agenda hwnnw tua deng mlynedd ar ei hôl hi o ystyried ein safbwynt ynghylch yr ieuenctid. Felly, mater i'r Glasbrint yw gyrru'r syniad hwn yn*

*ei flaen a ... gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau hynny ar gael i fenywod mewn gwirionedd … '*

3.40 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid hefyd yn cytuno'n gryf y dylai arfer wedi'i lywio gan drawma fod yn ffocws i flaenoriaeth gymunedol y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod. Yn fwy na dim ond offeryn neu ymyriad ar gyfer gweithio gyda menywod, dywedwyd mai arfer wedi'i lywio gan drawma oedd y *'gonglfaen'* ar gyfer atal troseddu a sicrhau canlyniadau gwell i fenywod sy'n troseddu, y mae llawer ohonynt wedi byw bywydau *'erchyll'* o ddioddefaint. Yn wir, roedd yna ymdeimlad cryf y dylai arfer wedi'i lywio gan drawma fod yn llinyn aur sy'n rhedeg drwy'r <u>holl</u> ddarpariaeth gymunedol i fenywod.

3.41 Dywedwyd bod cwnsela un-i-un arbenigol, wedi'i lywio gan drawma, yn arbennig o bwysig i'r rheini â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod neu hanes o gam-drin domestig nad ydynt – i ddechrau o leiaf – yn dymuno trafod eu profiadau mewn grŵp. Roedd hyn yn cael ei weld fel cam hanfodol i fenywod ddatblygu'r hyder i gymryd rhan mewn gweithgaredd cyfoedion, gan gynnwys *'gwaith grŵp bach gyda menywod y maent yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt'*.

*Enghreifftiau o arferion effeithiol mewn cymorth yn y gymuned i fenywod*

3.42 Darparodd rhanddeiliaid yr enghreifftiau canlynol o arferion effeithiol mewn cymorth yn y gymuned i fenywod yng Nghymru:

- Y Dull System Gyfan Braenaru Merched ar draws De Cymru a Gwent sy'n *'cefnogi menywod ar bob cam o'r system cyfiawnder troseddol.'*
- PACT (Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned) yng Ngogledd Cymru, yn darparu cefnogaeth i deuluoedd menywod sy'n troseddu.
- Bont, sydd hefyd yn y gogledd, sy'n cynnig cyfryngiad cynadledda teuluol rhwng unigolion a'u plant a phobl ifanc a theuluoedd lle mae cyswllt neu berthnasau wedi chwalu.
- Darparu gwasanaethau prawf mewn lleoliadau cymunedol.

*'… O ran gwasanaethau oedolion, fel arfer mae'n rhaid mynd at swyddfa'r gwasanaeth prawf os wyt ti am weld swyddog prawf ac mae'r swyddfeydd yn ofnadwy... felly, mae angen mwy o waith i symud y swyddogion prawf allan i swyddfeydd y sector gwirfoddol ... rwy'n meddwl bod hynny'n agor y posibilrwydd*

*o weithio gyda menywod a phlant mewn ffordd wahanol. Bydd swyddogion prawf, gweithwyr o'r Tîm Troseddwyr Ifanc yn teimlo'n wahanol os nad ydynt yn eu swyddfeydd eu hunain. Pan fyddant yn eistedd ac yn siarad â gweithwyr gwirfoddol bob dydd ... mae'n newid meddylfryd, ac mae'n newid y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Mae'n bosibl y bydd y menywod a'r plant yn teimlo'n llawer mwy cadarnhaol am gerdded i mewn i le sy'n llawer mwy dymunol, gyda seddi cyfforddus iddynt, i fenywod lle gallai dynion gael eu gwahardd. Mae'n debyg bod llawer o'r menywod sy'n mynd i swyddfeydd prawf canolog yn ofnus o ddynion. Maen nhw wedi dioddef trais yn y cartref ... Felly, gall fod yn anodd iawn i fenyw gerdded i mewn yno ... Os ydych chi'n ei wneud yn llawer mwy dymunol, rhywle maen nhw'n hoffi mynd, yna fe fyddan nhw'n mynd; byddan nhw'n ymgysylltu …'*

3.43 Cafwyd canmoliaeth sylweddol hefyd i'r model canolfan breswyl i fenywod sydd ar ddod, a'r gobaith oedd y bydd yn cael ei uwchraddio a'i gopïo ledled Cymru yn y pen draw. Roedd rhanddeiliaid yn rhagweld mannau diogel dan arweiniad menywod i fenywod o fewn a thu allan i’r system cyfiawnder troseddol er mwyn iddynt gael mynediad at gymorth generig arbenigol a lled-gyffredinol – model cyfannol sydd eisoes yn bodoli yn Lloegr a’r Alban sy’n cyflawni canlyniadau rhagorol.

*Adborth menywod*

3.44 Yn ogystal â'r cymorth a gawsant drwy'r rhaglenni dargyfeirio, y gwasanaethau prawf, a'r Dull System Gyfan Cynllun Braenaru i Ferched, roedd rhai menywod ar hyn o bryd yn ymgysylltu ag ystod o wasanaethau cymorth yn y gymuned, neu wedi ymgysylltu â nhw o'r blaen. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Newid Cam: Cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i gyn-aelodau o'r lluoedd arfog / gwasanaethau brys;
- Cymorth cyffuriau ac alcohol;
- Cwnsela a seicotherapi;
- Iechyd meddwl cymunedol.

3.45 O ran sut olwg fyddai ar gymorth 'da' yn y gymuned o ran cymorth yn y gymuned, roedd yn bwysig i fenywod ei bod yn hawdd iddynt fynd at staff asiantaeth a'u bod yn cymryd yr amser i ddeall eu hanghenion.

*‘Mae'n rhaid i mi deimlo'n gyfforddus yn siarad â rhywun a byddai'n well gennyf gael rhywun nad yw wedi gwisgo'n smart i gyd a dwi'n casáu pobl sy'n eistedd yno ac yn edrych ar y cloc neu'n edrych ar eu horiawr i wirio'r amser oherwydd bod hynny'n gwneud i mi deimlo eu bod yn fy rhuthro a ddim eisiau siarad â mi.’*

3.46 Roedd gan y menywod farn gymysg am y cymorth a gawsant yn y gymuned. Dywedodd rhai nad oedd y cymorth a dderbyniwyd wedi bodloni eu hanghenion.

3.47 Roedd y menywod hefyd wedi mynegi barn gymysg am ba mor hawdd oedd cael gafael ar y cymorth yr oedd ei angen arnynt yn y gymuned. Fel y nodwyd mewn man arall, dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai y buom yn siarad â nhw bod y diffyg cefnogaeth yn y gymuned yn ddylanwad mawr ar eu troseddu.

3.48 I'r gwrthwyneb, roedd rhai wedi cyrchu cymorth yn gyflym ac yn gymharol hawdd.

*‘Yn bersonol, dwi wedi cael fy nghyfeirio o wahanol fannau at asiantaethau eraill yn ddidrafferth. Dwi ddim wedi cael unrhyw anhawster [o ran peidio â bod yn ymwybodol o sut i gael gafael ar gymorth], oherwydd fy mod bob amser wedi cael yr wybodaeth i allu gwneud hynny.’*

3.49 Dywedodd rhai o’r menywod fod rhai gweithwyr proffesiynol gwasanaethau yn y gymuned yn amharod i'w helpu oherwydd eu hagwedd neu eu hymddygiad. Mewn rhai o'r sefyllfaoedd hyn, roedd staff y rhaglen ddargyfeirio wedi ceisio cyfryngu rhwng staff y gwasanaeth a defnyddwyr.

*‘Rwy'n mynd atyn nhw am help, ac maen nhw’n dweud na allan nhw fy helpu oherwydd dyna fy mhroblem i a dyna lle mae angen help arna i. Ond ni allaf gael help ar gyfer hynny nes i mi ei sortio, a dwi fel “Beth??" Ond wedyn, dyma'n gweithiwr cymorth yn troi a dweud "Mae oherwydd dy fod yn rhoi’r argraff dy fod yn unigolyn mor gryf" ... ond maen nhw’n edrych arnaf ac yn dweud "Mae hi'n bod yn [anodd]; gall helpu ei hun!"*

3.50 Mewn achosion eraill, roedd menywod yn teimlo bod gweithwyr proffesiynol gwasanaethau yn y gymuned wedi bod yn rhy gyflym i ddweud wrth y menywod beth y dylent fod yn ei wneud a phryd, yn hytrach na gadael i fenywod benderfynu a chynllunio eu camau nesaf.

*‘Nid yw'n gefnogaeth, mae'n debycach i reolaeth ... mae fel eu bod yn gwthio'n gyson gyda “Mae angen i chi wneud hyn, mae angen gwneud hynny ac mae*

*angen i chi ei wneud nawr" a na! Na, na, na, na - rydych wedi cael popeth yn anghywir. Dylech fod yn eistedd yno yn gofyn i mi a ydw i'n barod i wneud a dylech fod yna i'm helpu pan wyf yn barod i wneud rhywbeth. Nid wyt yn eistedd yna'n dweud wrthyf fod angen i mi wneud hyn a'r llall a bod angen i mi eu gwneud nawr, oherwydd sut wyt ti'n gwybod fy mod i'n ... barod, yn feddyliol, i wneud hynny?'*

3.51 Roedd un o'r menywod y buom yn siarad â nhw wedi cwblhau dedfryd gymunedol o'r blaen. Tua diwedd ei dedfryd gymunedol, manteisiodd ar nifer o gyfleoedd addysgol, a oedd yn fuddiol iddi.

*'Yn ystod hanner olaf fy ngwasanaeth cymunedol ... roeddwn i'n mynd i'r swyddfa ac yn dilyn cyrsiau ac roedd hynny'n fuddiol oherwydd dy fod yn teimlo dy fod yn cael rhywbeth allan ohono. Ac mae gen i lwyth o dystysgrifau nawr na fyddai gennyf fel arall... Rwyt ti yno i wneud dy oriau, ond rwyt yn elwa arno hefyd. Sylwais fy mod yn cael fy ysgogi'n fwy yn hynny. Fe wnes i lefel 1 a lefel 2 mewn mathemateg a Saesneg. Roeddent yn bethau sylfaenol, ond pethau sylfaenol oedd yn golygu llawer i mi.'*

3.52 Fodd bynnag, teimlai nad oedd rhai o'r gweithgareddau eraill a wnaeth yn ystod y ddedfryd gymunedol mor effeithiol o ran ei hannog i gyflawni canlyniadau gwell neu i'w hatal rhag aildroseddu.

*'Felly, efallai y dylai gorchmynion cymunedol a phethau felly gynnwys mwy o gyrsiau ... yn hytrach na mynd allan a gwneud pethau fel glanhau traethau. Cefais fy rhoi i'r cyfeiriad lle gallwn fod wedi cael cyfleoedd gwaith a phethau felly, wedyn pan wnes i adael, yn lle mynd i [lleoliad] a chreu helynt, meddyliais, "Rwy'n mynd i chwilio am gwrs ar-lein". Fe wnaeth fy ysgogi mwy a rhoi'r gred i mi y gallwn ei wneud.'*

**Y ddalfa ac ailsefydlu**

*Adborth rhanddeiliaid*

3.53 Er bod y rhanddeiliaid wedi ailadrodd eto na ddylai menywod gael eu hanfon i'r carchar ac eithrio'r troseddau mwyaf difrifol, roeddent yn cytuno bod anghenion y rhai yn y ddalfa yn debygol o fod yn gymhleth a bod angen mynd i'r afael â nhw'n briodol. Ystyriwyd ei bod yn arbennig o bwysig cynnal cysylltiadau â theuluoedd a phlant, nid yn unig er budd y menywod eu hunain, ond hefyd er mwyn mynd i'r afael

â'r trosglwyddiad rhwng cenedlaethau o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod o ganlyniad i blant yn cael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni.

3.54 Cefnogwyd hefyd y bwriad o sicrhau bod amgylchedd y ddalfa mor gynhyrchiol a galluogol â phosibl i fenywod. Er enghraifft, awgrymwyd y dylid cynnig rhaglenni mwy integredig i'r menywod yn hytrach na'u cael nhw i gymryd rhan mewn sesiynau therapi a dosbarthiadau academaidd (h.y., mathemateg a Saesneg) ar wahân, fel eu bod yn dysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd trwy ddull therapiwtig, galwedigaethol.

*'Hoffwn ... weld hynny ... yn y ddalfa, yn hytrach na'r hyn a all fod yn ymyriadau eithaf llinol ac unigol. Nid dyna sut mae bywyd yn gweithio wrth gwrs. Ac mae'n llawer gwell i fenywod allu integreiddio'r ymyriadau hynny.'*

*Adborth rhanddeiliaid ar enghreifftiau o arferion effeithiol yn y ddalfa ac ailsefydlu i fenywod*

3.55 Darparodd rhanddeiliaid yr enghreifftiau canlynol o arferion effeithiol yn y ddalfa ac ailsefydlu i fenywod yng Nghymru:

- Y Dull System Gyfan Cynllun Braenaru yng Ngwent a De Cymru ;
- Menter Ymweld â Mam[5];

*'Mae gennym ni brosiect … o'r enw Ymweld â Mam sy'n cefnogi menywod â phlant sy'n mynd i'r carchar ... maen nhw'n cefnogi eu teulu yn y gymuned tra bod y fenyw yn y ddalfa ... y flaenoriaeth ar gyfer hynny yw cynnal cysylltiadau teuluol, sef un o'r amcanion o'r ffrwd waith ailsefydlu carcharol ...' '*

- Gwasanaethau cwnsela yn y ddalfa sy'n parhau ar ôl eu rhyddhau;
- Mwy o ddefnydd o fideo-gynadledda i gynnal cyswllt rhwng menywod a'u teuluoedd (sydd angen ei gynnal ar ôl y pandemig);

[5]Mae'r prosiect Ymweld â Mam, a ariennir ar y cyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru, yn gweithredu yn CEM Eastwood Park a CEM Styal i nodi menywod sydd mewn perygl o golli cysylltiad â'u plant yng Nghymru a chynnig cymorth arbenigol i gadw a chryfhau'r cysylltiadau teuluol hanfodol hyn. Mae cyfle hefyd i fenywod gymryd rhan mewn rhaglenni magu plant a chydberthnasau a chael cymorth arbenigol un-i-un a all gynnwys cymorth i ymgysylltu â gweithwyr cymdeithasol a gwasanaethau eraill os oes angen.

- Y Llwybr Anhwylder Personoliaeth Troseddwyr[6], sy'n cael ei ddefnyddio fwyfwy ar gyfer menywod sy'n troseddu yng Nghymru;

*' ... dyna dîm sy'n llawn arbenigedd, fel seicolegwyr a swyddogion prawf, sy'n gweithio gyda phobl sy'n debygol o fod ag anhwylder personoliaeth. Ac … mae ganddynt nyrs gyswllt iechyd meddwl sy'n mynd i Garchar Eastwood Park i weithio gyda menywod o Gymru a'u cefnogi yn barod ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned. Felly, pan fyddwch chi'n sôn am enghreifftiau o arferion da, rwy'n meddwl bod hynny'n enghraifft wirioneddol dda o ... fynd â'r gwasanaeth i ble mae'r fenyw yn hytrach na dweud, "O wel, nid yw'n bodoli yno, felly nid ydym yn mynd i'w roi iddi."'*

3.56 Dywedwyd hefyd bod y cydweithio rhwng y sefydliadau a'r unigolion sy'n ymwneud â chynllunio ailsefydlu ac ailfodelu, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a'r carchardai menywod eu hunain, wedi gwella. Mae'n debyg bod y Glasbrint wedi bod yn gatalydd ar gyfer hyn, gan helpu i lunio cynlluniau a galluogi'r rhai sy'n gweithio o fewn y ffrwd waith flaenoriaeth hon i ddylanwadu arnynt.

*Adborth rhanddeiliaid ar archwilio'r defnydd o Ryddhau ar Drwydded Dros Dro ar gyfer menywod, yn enwedig Trwydded Ailsefydlu Gofal Plant*

3.57 Roedd rhanddeiliaid yn gadarnhaol ynghylch y defnydd o system Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro i fenywod i'w cefnogi i ailgysylltu â chymdeithas yn dilyn dedfryd o garchar. Cefnogwyd Trwyddedau Ailsefydlu Gofal Plant hefyd i alluogi menywod i gyfathrebu'n well â'u teuluoedd a gwella cydberthnasau '*oherwydd ei bod yn haws eu datblygu dros amser nag ar un tro ar ôl cael eu rhyddhau.'*

3.58 O fewn rheswm ac fel y bo'n briodol i risg, ystyriwyd bod rhyddhau fesul cam yn arbennig o bwysig o ran ailsefydlu'r menywod hynny sy'n bwrw dedfrydau hir, gan fod o fudd nid yn unig i'r fenyw ei hun, ond hefyd mae'n caniatáu iddi ailadeiladu cydberthnasau'n raddol gyda'i phlant, ei theulu a'r gymuned ehangach.

[6] Mae'r rhaglen Llwybr Anhwylder Personoliaeth Troseddwyr yn fenter a gomisiynwyd ar y cyd â'r nod o ddarparu llwybr o wasanaethau sy'n seiliedig ar wybodaeth seicolegol ar gyfer grŵp o droseddwyr hynod gymhleth a heriol sy'n debygol o fod ag anhwylder personoliaeth difrifol ac sy'n peri risg uchel o niwed i eraill, neu risg uchel o aildroseddu mewn ffordd niweidiol.

*'...... mae unrhyw newid yn eithaf llethol ac yn arbennig i fenyw a allai fod wedi bwrw dedfryd hwy a fyddai'n gymwys i gael ei rhyddhau ar drwydded dros dro; gall gwneud y newid hwnnw o un diwrnod i'r llall fod yn eithaf brawychus.'*

*Adborth menywod*

3.59 Roedd un fenyw, sydd yn y ddalfa ar hyn o bryd, yn cofio cael ei holi am ei chefndir ac unrhyw anghenion pan gyrhaeddodd yn y carchar am y tro cyntaf, ond dywedodd nad oedd neb wedi bod gyda hi yn ystod y tridiau cyntaf i roi cymorth, tawelwch meddwl na rhoi unrhyw wybodaeth iddi; gadawyd iddi ymgartrefu ar ei phen ei hun. Cytunodd y byddai wedi hoffi cael cyfaill neu fentor pan gyrhaeddodd gyntaf.

3.60 Pan ofynnwyd iddi am gyswllt â theulu, dywedodd y fenyw ei bod yn gallu gweld ei mab a'i thad unwaith y mis. Mae COVID-19 wedi gwneud ymweld yn anos, ond mae sefydliad trydydd sector wedi helpu gyda hyn. Mae'r fenyw yn gallu treulio dwy awr y mis gyda'i mab ac mae yn ei ffonio bob dydd ond dywedodd nad oedd yn hawdd gwneud hyn, ac yr hoffai gael mwy o gysylltiad â'i mab a'i thad, sydd wedi bod yn sâl:

*' … y peth anoddaf i mi yw'r ffaith nad wyf yno i ofalu am fy nhad pan mae'n sâl.'*

3.61 Dywedodd y fenyw hon hefyd nad oedd unrhyw gefnogaeth wedi'i chynnig i'w theulu ers iddi gael ei charcharu. Teimlai y dylent fod wedi cael cynnig gwasanaethau ychwanegol ar ffurf gwaith cefnogi, gweithgareddau, neu gwnsela i'w helpu i ddod i delerau â'r sefyllfa.

3.62 O ran ei phrofiad yn y carchar, honnodd y fenyw fod lefelau anghyson o gymorth i garcharorion benywaidd, ac mae'r cymorth yn aml yn dibynnu ar y ffaith a wyt ti'n *'boblogaidd'.*

*'A'r peth arall yma hefyd [yw] os wyt yn boblogaidd. Mae'n un rheol ar gyfer un ac un rheol ar gyfer y llall … os wyt yn boblogaidd yn y carchar neu wedi dod yn ffrindiau â swyddog.'*

3.63 Serch hynny, mae hi wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â llawer o'r cyfleoedd addysgol a galwedigaethol sydd ar gael ers bod yn y ddalfa a hoffai fynd i'r coleg ar ôl cael ei rhyddhau a chwblhau ei chymhwyster hyfforddi personol i'w galluogi i ennill bywoliaeth yn y gymuned.

*'Rwyf bellach yn hyfforddwr campfa cymwysedig, hyfforddwr nofio, cogydd cymwysedig, harddwr cymwysedig ac yn driniwr gwallt ... Pan fyddaf yn cael fy rhyddhau, a gobeithio pan fyddaf yn mynd i garchar agored, dwi am fynd i'r coleg i orffen fy nghwrs mewn hyfforddiant personol.'*

3.64 Un o'r pethau a ddywedodd y fenyw hon oedd y ffaith ei bod wedi llwyddo i ennill nifer o gymwysterau yn y carchar na allai fod wedi gallu eu fforddio yn y gymuned, ac felly roedd hyn wedi bod yn agwedd gadarnhaol ar y ddalfa. Ar ben hynny, mae hi hefyd wedi gweithio i oresgyn ei dibyniaeth ar alcohol a'i phroblemau o ran dicter.

*'Dwi wedi gwneud llawer o gyrsiau, a phe bawn i eisiau eu gwneud ar y tu allan byddai'n costio llawer i mi ... Felly, mewn un ffordd mae'n dda fy mod wedi dod i'r carchar …'*

*'Ers i mi fod yma, rwyf wedi tyfu'n aruthrol. Mae fy nhymer o dan reolaeth nawr ac mae'n cymryd llawer o bobl i fy ngwylltio. Roeddwn i'n arfer gwylltio ar ddim ond nawr dwi ddim … dwi'n cerdded i ffwrdd.'*

3.65 Pan fydd y fenyw hon yn agosáu at gael ei rhyddhau, mae'n rhagweld y bydd yn gallu cael cymorth ailsefydlu. Pan ofynnwyd iddi beth y gallai fod ei angen arni neu ei heisiau ar y pwynt hwnnw, roedd yn meddwl mai cymorth i ddod o hyd i rywle i fyw, a 'chefnogaeth foesol' oedd bwysicaf wrth ddod i delerau â byw mewn cymdeithas eto.

*'Hoffwn gael mwy o gefnogaeth foesol, oherwydd fy mod wedi bod yma am gyfnod mor hir. Mae'n mynd i fod yn frawychus i mi pan fyddaf yn dod allan o'r fan hon yn amlwg. Achos bod popeth wedi newid ...'*

3.66 Roedd menyw arall wedi bod yn y ddalfa am gyfnod byr yn unig. Roedd hi hefyd yn cofio cael ei holi am ei chefndir a'i hanghenion pan gyrhaeddodd gyntaf a chafodd fanylion cyswllt yr elusen Cymorth i Ferched i helpu i ddod o hyd i lety ar ôl ei rhyddhau.

3.67 Er mai dim ond am rai wythnosau y bu'r fenyw hon yn y carchar, llwyddodd i wneud defnydd o'r cyfleoedd addysgol oedd ar gael ac enillodd dystysgrif lefel 2 mewn Saesneg yn ystod y cyfnod hwnnw. Nid oedd yn cofio cael cynnig unrhyw gefnogaeth feddyliol, emosiynol nac ysbrydol tra'r oedd yn y ddalfa a nododd fod hyn yn broblem. Awgrymodd y gallai fod yn ddefnyddiol gwneud gwaith grŵp i'w drafod oherwydd bod cymaint o fenywod angen y math hwn o gymorth.

*‘ … mae cymaint o fenywod sydd angen cymorth ynghylch iechyd meddwl, gorbryder, a phyliau o banig, mae'n eithaf anodd iddyn nhw ganolbwyntio ar unigolyn yn unig. Gallen nhw wneud mwy o waith grŵp.’*

3.68 Roedd un fenyw wedi mynd i'r ddalfa gyda gwybodaeth fanwl am ei 'phroblemau iechyd cymhleth' a'i meddyginiaeth. Fodd bynnag, dywedodd unwaith ei bod yn y ddalfa, ei bod yn cael ei hatal rhag cymryd llawer o'i meddyginiaeth poen oherwydd rheoliadau sylweddau dan reolaeth y carchar. Er iddi gael caniatâd am gyffuriau lladd poen cryfach yn y pen draw, dywedodd ei bod wedi treulio llawer o ran gynnar ei dedfryd mewn poen sylweddol.

3.69 Pan ofynnwyd iddi am gyswllt â theulu a ffrindiau yn ystod ei chyfnod yn y ddalfa, roedd y fenyw hon wedi gallu derbyn negeseuon e-bost a siarad â’i theulu bob dydd dros y ffôn ond roedd yn cael anhawster gydag ymweliadau wyneb yn wyneb oherwydd nad oedd am i’w theulu ei gweld yn y carchar.

*‘Roeddwn i'n cael negeseuon e-bost ac fe wnes i'n siŵr bod digon o gredyd ar fy ffôn bob amser fel y gallwn eu ffonio bob dydd, oherwydd roedd ffôn yn y gell. Roedden nhw am ddod i'm gweld, ond gofynnais iddyn nhw beidio … doeddwn i ddim eisiau iddyn nhw fy ngweld yn yr amgylchedd hwnnw …’*

3.70 Dywedodd ei bod yn cael anhawster i siarad â’i meibion, a oedd hefyd yn y ddalfa, oherwydd y weinyddiaeth dan sylw ond roedd wedi dod o hyd i ffordd i wneud hynny trwy gael aelod o’r teulu ar y ffôn gyda nhw'r un pryd.

*‘…er mwyn cael galwadau ffôn rhwng carchardai lle gallwn i siarad â [fy meibion] yn uniongyrchol, mae'n rhaid llenwi dwy ffurflen ar wahân ar gyfer pob carcharor yr wyt am eu cynnwys yn y galwad ... mae'n cymryd oes oherwydd bod yn rhaid i chi gael eich cyfreithiwr i ysgrifennu i mewn i gymeradwyo'r cysylltiad wedyn … llenwais y ffurflenni a meddwl “sdwffia hynna…”’*

3.71 Un mater penodol a godwyd gan y fenyw hon oedd y ffaith nad oedd yn gwybod am ba mor hir y byddai yn y ddalfa ar ôl cael ei dedfrydu ac ni chafodd fawr o gyfathrebu am hyn hyd yn oed yn ystod ei chyfnod dan glo.

*‘ … daeth Rheolwr Troseddwyr i mewn i'm cell i siarad â mi gyda gwaith papur i fi ei lofnodi … a doeddwn i ddim yn deall popeth roedd hi'n ei ddweud yn iawn. Ni roddodd unrhyw waith papur i mi ei gadw felly roeddwn i'n dal yn y tywyllwch ... Tua dau ddiwrnod cyn i mi gael fy rhyddhau, daeth Rheolwr Troseddwyr arall ataf*

*a mynd â fi y tu allan i eistedd ar fainc a mynd drwy'r holl fanylion trwyddedu. Roedd gen i lawer o waith papur i'w lofnodi, a dim ond wedyn y sylweddolais fy mod i'n mynd i gael fy rhyddhau … [a] thrwy gydol yr holl amser yr oeddwn yn y carchar, y ddau unigolyn hynny yw'r unig rai a siaradodd â fi wyneb yn wyneb a oedd ag unrhyw beth i wneud â'r system gyfiawnder.'*

3.72 Dywedodd hefyd na chynigiwyd unrhyw gymorth emosiynol nac ymarferol iddi yn ystod ei chyfnod yn y ddalfa, er iddi wneud cais amdano. Teimlai fod hyn wedi cyfrannu at ei phroblemau iechyd meddwl presennol, er nad yw bellach yn y ddalfa.

*'Roeddwn i'n gweld menywod yn cyrraedd yn gaeth iawn i heroin. Roedden nhw'n cael yr apiau ac yn cael manylion o ran ailsefydlu a rheoli troseddwyr ac roedd pobl yn dod i'w gweld ar unwaith ... Fe wnaethon nhw fy ngadael ar fy mhen fy hun. Gadael – mor syml â 'ny. Ni siaradodd neb â mi a dweud y gwir … byddwn wedi gwerthfawrogi bod rhywun yn eistedd gyda mi er mwyn trafod ac esbonio fy nedfryd ac amlinellu'r holl bethau'n iawn, ac o bosibl yn rhoi rhywbeth ysgrifenedig i mi. A hefyd rhywun yn siarad â mi am fy nhŷ ... doedd dim gwybodaeth gennyf o gwbl. Doedd ganddyn nhw ddim diddordeb i fod yn deg ... roeddwn i'n dioddef yn wael iawn gyda gorbryder tra'r oeddwn yn y carchar, ac yn y diwedd fe fu'n rhaid i mi fynd ar feddyginiaeth gorbryder a dwi dal yn cymryd y feddyginiaeth honno nawr.'*

3.73 Roedd un arall o'r menywod y buom yn siarad â nhw wedi cael profiad cymharol gadarnhaol yn y ddalfa. Gofynnwyd iddi am ei hanghenion a chynigiwyd cymorth priodol iddi ar ôl cyrraedd y carchar ac nid oedd yn teimlo bod ganddi unrhyw anghenion cymorth heb eu diwallu. Dywedodd na chafodd gynnig o gael ei Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro oherwydd difrifoldeb ei throsedd.

3.74 Roedd y fenyw hon yn cael gweld ei phlentyn a'i theulu yn rheolaidd am ddiwrnodau llawn ar y tro ac roedd yn gallu gwneud tâp ohoni'n darllen stori i'w phlentyn. Ni ddefnyddiodd y cyfleuster mamau a babanod oherwydd bod ei phlentyn dros 18 mis oed ond ni fyddai wedi bod yn awyddus i ddefnyddio'r cyfleuster beth bynnag.

*'Roedd diwrnodau teulu unwaith y mis lle roedd fy merch yn cyrraedd am wyth o'r gloch yn y bore ac yn aros tan chwech o'r gloch yn y nos. Felly, byddwn yn treulio'r diwrnod cyfan gyda hi. Pe bai hi wedi bod o dan 18 mis, gallai fod wedi dod i fyw gyda mi yno, ond dwi ddim yn meddwl y byddwn wedi gwneud hynny*

*beth bynnag. Ond roedd ganddyn nhw gyfleuster yno lle gallai pobl gael eu babanod. Cawson ni ddiwrnodau teulu, gwnes i dâp, darllenais stori iddi, ond fy llais ar dâp oedd yn darllen stori iddi er mwyn i mi allu anfon honno adref. Roedden nhw'n eithaf da os oedd gennych chi blant.'*

3.75 Fodd bynnag, roedd teithio'r pellter hir o'i chartref i'r carchar i'w gweld, yn aml gyda'i phlentyn, yn rhoi pwysau ar ei mam. Roedd y gorbryder a'r iselder yr oedd ei mam eisoes yn eu profi wedi gwaethygu o ganlyniad, gan orfodi ei mam i gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith.

3.76 O ran sut y gellid gwella ei phrofiad yn y ddalfa, teimlai'r cyfwelai y dylai ei mam fod wedi cael cynnig mwy o gymorth yn ystod y ddedfryd. Roedd hyn yn cynnwys cael staff y carchar i gynnal sgwrs ffôn gychwynnol gyda'i mam i egluro ei bod yn y ddalfa.

*'Pan es i i mewn, roedden nhw'n gallu gweld fy mod i wedi cynhyrfu ac roedden nhw'n gallu gweld nad oeddwn i'n rhoi unrhyw wybodaeth berthnasol i fy mam, felly efallai y gallen nhw fod wedi dod draw a dweud "Edrychwch, mae hi'n iawn, mae hi yn y [carchar ], dyma beth sydd angen ei wneud nawr", ond roedden nhw'n gadael y peth i mi, ac yn amlwg doeddwn i ddim yn gallu siarad!'*

3.77 Byddai caniatáu iddi ffonio ei mam yn syth ar ôl iddi gyrraedd y carchar hefyd wedi helpu, yn hytrach na gorfod aros i wneud galwadau ffôn.

*'Doedd mam ddim yn gwybod ble roeddwn i. Doedd hi ddim yn gwybod sut i gysylltu â mi ... Ac yna fe gymerodd dipyn o amser oherwydd bod rhaid cael rhif pin ar gyfer dy ffôn, a'r holl rifau i roi ymlaen. Dwi'n meddwl y dylai rhif dy fam gael ei roi ymlaen yn awtomatig oherwydd mai hi yw dy deulu agos ... doeddwn i ddim yn gallu cysylltu â mam am y tridiau cyntaf.'*

3.78 Dywedodd fod ei phrofiad yn y ddalfa wedi ei hatal rhag cyflawni troseddau pellach; yn yr ystyr hwnnw, teimlai ei fod yn fwy effeithiol na'r ddedfryd gymunedol a gyflawnodd ar ôl iddi gael ei rhyddhau.

*'Fe wnes i aros allan o drafferth am flynyddoedd ar ôl hynny. Felly, yn amlwg fe wnaeth yr hyn y'i cynlluniwyd i'w wneud. I mi, roedd yn ysgytwad mawr iawn. Cefais ddedfryd o wasanaeth cymunedol pan es i allan oherwydd trosedd a ddigwyddodd cyn i mi fynd i'r carchar, felly roedd gen i orchymyn cymunedol pan ddes i allan, ac ni welais unrhyw gosb yn hynny ... roedd yn ddibwrpas. Pe bawn*

*i wedi cael y gorchymyn cymunedol cyn y carchar, dwi'n meddwl y byddwn wedi canfod fy hun yn y carchar beth bynnag.'*

3.79 Roedd un fenyw yn blentyn dan oed pan gafodd ei dedfrydu felly roedd ganddi brofiad gwahanol ar ddechrau ei chyfnod yn y ddalfa i'r menywod eraill a gyfwelwyd. Roedd hi'n cofio nad oedd yn gwybod mewn gwirionedd beth oedd yn digwydd pan gafodd ei symud i Ganolfan Hyfforddi Ddiogel ymhell o'i thref enedigol i ddechrau, yn ogystal â pha mor ofnus yr oedd hi'n teimlo.

*' … roeddwn i fel, "I ble rydyn ni'n mynd?" a dwi'n cofio bod gyda'r hebryngwyr hyn mewn rhywbeth oedd fel car arferol a dyma'r fenyw yn troi ataf a dweud "Rwyt ti'n gallu siarad â fi os oes unrhyw beth ti am drafod, ti'n gwybod..." a dywedais "Dwi ddim yn nabod y bobl hyn sydd yn y car hwn" ... doeddet ti ddim yn gwybod i ble roeddet ti'n mynd ... Doeddwn i ddim yn gwybod dim ... Dwi'n cofio ei fod wedi cymryd tua phum awr i ni gyrraedd County Durham…'*

3.80 Roedd y fenyw hon hefyd yn cofio rhywfaint o fwlio yn ei Chanolfan Hyfforddi Ddiogel cyntaf, gan ffafrio'r ail uned lle cafodd ei symud wedyn a oedd yn nes at adref, yn rhannol oherwydd y sioc ddiwylliannol o fod yng ngogledd ddwyrain Lloegr.

*' … roedd yn llawer haws, ac roeddwn i'n falch iawn oherwydd bod y ganolfan hyfforddi ddiogel gyntaf i mi fynd iddi yn erchyll … mae'r [lleoliad hwn] wedi dod â … fy mhen yn nes at adref. Roedd bod yn Newcastle yn rhyfedd iawn oherwydd roedd y Geordies yno, pobl o Swydd Efrog, roedd yr holl bobl eraill yno ond neb o Gymru neu mor bell oddi cartref ag yr oeddwn i ... nid oeddwn wedi bod allan o Gymru erioed oni bai am yr adegau gyda fy nheulu, felly i fod ar ben fy hun yn Newcastle ... lle roedd gan bawb eu llysenw eu hun, a doeddwn i ddim yn deall am beth yr oedden nhw'n sôn.'*

3.81 Pan gyrhaeddodd y fenyw hon yn y ddalfa yn yr uned ddiogel, nid oedd yn teimlo ei bod wedi gallu cyfathrebu ei hanghenion oherwydd ei bod yn teimlo'n ddryslyd. Dywedodd hefyd nad oedd ganddi unrhyw gymorth iechyd meddwl ac nad oedd yn sylweddoli ei bod yn cael ei harsylwi oherwydd ei hanes o hunan-niweidio.

*'Cyrhaeddais ... a siaradais â nyrs, a dywedodd hi, "A oes unrhyw beth o'i le arnat ti? Unrhyw beth sydd angen i ni ei wybod? Sut wyt ti'n teimlo?" a dywedais, "Dwi ddim yn deall beth sy'n digwydd. Dwi ddim yn gwybod pwy wyt ti, a dwi*

*ddim yn gwybod ble ydw i mewn gwirionedd" ac ni ddangosodd unrhyw un yr uned ddiogel i mi… Ni ofynnodd neb i mi a oedd angen i mi siarad â gweithiwr iechyd meddwl neu a oedd angen cymorth ychwanegol arnaf … ond oherwydd fy hanes o hunan-niweidio, roedden nhw'n fy arsylwi beth bynnag. Ond, yr hyn na ddywedon nhw oedd, "Byddwn yn cadw golwg arnat ti i wneud yn siŵr dy fod yn iawn…"'*

3.82 Pan oedd y fenyw hon yn 18 oed, cafodd ei symud i CEM Styal. Pan ofynnwyd iddi a oedd wedi cael ei holi am ei chefndir a'i hanghenion yno, dywedodd ei bod wedi cymryd sbel iddi siarad yn agored â set newydd o aelodau staff a bod y trosiant staff yn anodd iddi. Achosodd hyn iddi fynd i'w chragen pan ofynnwyd iddi amdani ei hun.

*'Rwy'n meddwl ei fod wedi cymryd amser, yn enwedig pan oeddwn yn mynd trwy'r Tîm Troseddwyr Ifanc a phethau felly, roeddwn yn cael gweithwyr cymdeithasol newydd yn eithaf rheolaidd ... Felly, wnes i geisio peidio â siarad â phobl oherwydd beth oedd y pwynt? Maen nhw'n mynd i fynd a gadael fi eto.'*

3.83 Pan ofynnwyd iddi am ei chyswllt â'r teulu, dywedodd pa mor bwysig oedd hynny iddi. Roedd hi'n gallu siarad â'i chwaer bob dydd ac roedd mewn cysylltiad â'i mam 'drwy'r amser'. Fodd bynnag, roedd yn ei chael yn anodd oherwydd ei fod yn tynnu sylw at y cyfyngiadau o fod yn y ddalfa.

*'Dwi'n siarad â fy chwaer bob dydd. Dwi'n siarad â fy mam drwy'r amser ... roedd hi'n arfer dod i'm gweld yn eithaf rheolaidd cyn COVID-19, ond roedd hi'n eithaf neis [fod gennym ni] gyswllt fideo ... roedd hi'n ein tywys o amgylch ei thŷ [newydd] ... ac roedd yn wych gweld popeth wrth iddi gerdded o amgylch y tŷ. Mae'n wych cael yr holl ffyrdd o gysylltu, ond ar yr un pryd, mae'n gwneud i ti sylweddoli dy fod yn colli pethau hefyd ... bu farw fy Nhad-cu pan ddes i yma gyntaf ... cefais ganiatâd i fynd i'w angladd, a dwi'n meddwl mai dyna oedd y pwynt a wnaeth i mi sylweddoli bod pethau'n mynd i ddigwydd p'un a ydw i'n ei hoffi ai peidio ... roedd yn ofnadwy a dweud y gwir.'*

3.84 Roedd y fenyw wedi cyrchu cymorth iechyd meddwl yn ystod ei chyfnod yn y ddalfa ond roedd yn teimlo ei bod wedi cael ei siomi pan ddechreuodd y cwnselydd fethu apwyntiadau oherwydd ei bod wedi trefnu dau apwyntiad ar gyfer yr un pryd. Er

hynny, ers iddi fod yn y ddalfa, mae hi wedi ennill rhai cymwysterau nad oedd ar gael yn ei hysgol. Teimlai fod dysgu uwch yn rhywbeth y dylid ei gynnig.

*'Dwi'n meddwl fy mod i wedi gwneud rhai pethau na fyddwn i byth wedi meddwl amdanyn nhw o'r blaen ... a dylen nhw ystyried darparu dysgu uwch.'*

3.85 Wrth drafod y cyfleoedd a gynigiwyd i'w pharatoi ar gyfer ailsefydlu ar ôl iddi gael ei rhyddhau, soniodd y fenyw hon am sut roedd carcharorion yn arfer gallu ymweld â threfi ond bod hyn wedi dod i ben. Roedd hi'n meddwl y gallai hynny fod yn ddefnyddiol iddi oherwydd nad yw erioed wedi byw yn y gymuned fel oedolyn ac nid oedd yn gwybod beth yw Snapchat a WhatsApp er enghraifft.

*'Rwy'n meddwl [y byddai'n] dda pe baen nhw'n dod â'r [ymweliadau tref] yn ôl ... mae fy ffrindiau'n gwybod beth yw Snapchat a WhatsApp a hwn, hwnnw a'r llall, a dwi'n eistedd yno yn meddwl, 'Wel, does gen i ddim … cliw.''*

3.86 Pan ofynnwyd iddi sut y gellid gwella carchardai i fenywod, atebodd ei bod yn teimlo y dylai staff fod yn fwy 'ystyriol' ac y dylid caniatáu i garcharorion fynegi eu teimladau heb gael eu ceryddu am wneud hynny.

*' … fy mhrif beth yw bod angen i'r staff fod yn fwy ystyriol. Nid rhif yn unig ydw i, rydw i'n unigolyn sydd â theimladau, sydd eisiau crio weithiau ac sydd eisiau gweiddi weithiau …'*

3.87 Roedd menywod nad oeddent wedi bod yn y ddalfa hefyd yn dyfalu beth fyddai'n bwysig i fenywod yn y ddalfa. Ystyriwyd bod cael cyswllt rheolaidd â phlant a theulu yn hanfodol.

*'Rwy'n meddwl ei bod yn hollbwysig os ydych chi'n fenyw yn y carchar a bod gennych chi blant eich hun, neu os ydych chi'n fodryb neu'n nain neu'n chwaer. Mae angen i blant gael cyswllt nid yn unig â menywod ond hefyd â dynion sydd yn y carchar ac sydd angen y cyswllt teuluol hwnnw. Mae'n hollbwysig.'*

3.88 Roedd rhai menywod yn anghytuno'n llwyr â'r cysyniad o ddedfrydau carcharol i fenywod. Roeddent yn awgrymu nad yw carchar yn ataliad go iawn a'i fod yn cael ei weld gan lawer o fenywod sy'n troseddu fel yr opsiwn 'hawdd', ac y byddai dulliau gwneud yn iawn neu gyfiawnder adferol yn fwy priodol.

*'Mewn nifer o achosion, dwi ddim yn credu mai dedfrydau o garchar yw'r trywydd iawn ar gyfer menywod oherwydd bod ganddynt deuluoedd ifanc i ofalu amdanyn*

*nhw ac ati. …efallai y gellir datrys sefyllfaoedd a gallant wneud yn iawn am bethau heb orfod cael eu carcharu.'*

*' … nid yw'n ataliad … gallaf ddeall yn iawn pam eu bod yn dal i fynd yn ôl … Maen nhw'n cael eu bwyd, maen nhw'n cael gwely cynnes, mae eu dillad yn cael eu golchi, maen nhw'n cael mynd allan i wneud ymarfer corff, maen nhw'n cael cymysgu â charcharorion eraill a meithrin cyfeillgarwch … Roedden nhw i gyd yn defnyddio enwau cyntaf pob aelod o'r staff oherwydd eu bod wedi bod yno sawl gwaith.'*

3.89 Teimlai eraill y dylai menywod dderbyn dedfrydau o garchar am rai troseddau ac mewn rhai amgylchiadau, a bod y carchar wedi bod yn ataliad iddynt. Dywedwyd hefyd bod angen cymorth yn aml ar fenywod (a dynion) i fynd i'r afael â rheswm eu troseddu yn hytrach na'u carcharu.

*'Cefais fy ngharcharu ac fe agorodd fy llygaid a dwi ddim wedi bod mewn trwbl ers y llynedd ... fe wnes i lithro yn ôl ychydig o weithiau, ond nid oeddwn mor ddibynnol [cam-drin sylweddau] a phan es i i'r carchar.'*

*'Mae'n dibynnu ar y drosedd, ac mae'r un peth yn wir i unrhyw ddyn neu fenyw …. pe byddai menyw yn llofruddio dyn oherwydd ei fod wedi ei cham-drin yn rhywiol, dwi'n cefnogi hynny, ond maen nhw'n cael y gefnogaeth am yr hyn a ddigwyddodd iddyn nhw am y rheswm maen nhw wedi gwneud hynny. Pe byddai menyw yn mynd allan ac yn ymosod yn rhywiol ar ddyn am ei bod hi eisiau gwneud hynny, yna, mae'n ddrwg gen i, ond dylai dorri pob rhan ohoni i ffwrdd fel na fyddai hi'n gallu gwneud hynny eto …. Yn amlwg, dylen nhw gynnig cymorth am y rheswm mae'r fenyw wedi gwneud hyn ond os ydyn nhw'n ddi-baid a gwrthryfelgar … dylen nhw ei rhoi dan glo a thaflu'r allwedd!'*

3.90 Serch hynny, dywedwyd bod angen mwy o opsiynau carcharol sy'n caniatáu i fenywod Cymru gyflawni eu dedfrydau yn nes at adref.

*'Rwy'n meddwl y dylen nhw gael carchar yn nes at Gymru na hyn. Yn bendant mae angen iddyn nhw gael carchar yng Nghymru i ni … Does dim cymaint â hynny ohonom mewn gwirionedd, ond byddai'n wych oherwydd mae pobl yma o Gaernarfon ac mae'n cymryd trwy'r dydd i'w teulu gyrraedd yma …'*

3.91 O ran ailsefydlu, cyfaddefodd un fenyw yn agored ei bod yn cael trafferth addasu i fywyd 'ar y tu allan' - er bod ei dedfryd yn gymharol fyr.

*'Yr unig beth sylwais pan gefais fy rhyddhau, pan oeddwn, o'r diwedd, y tu allan yn y byd go iawn ... oedd ei bod yn teimlo'n anghywir ac na ddylwn i fod yno. Mae'n dal i wneud i raddau heddiw.'*

3.92 Dywedwyd y dylai ailsefydlu effeithiol gynnwys cymorth dwys, personol, sy'n cael ei arwain a'i froceru gan unigolyn neu asiantaeth allweddol. Dylai ddechrau pan fydd yn y ddalfa a pharhau'n ddi-dor ar ôl rhyddhau.

*'Cysylltiad rheolaidd â phobl y maen nhw'n ymddiried ynddyn nhw ac y gallen nhw fod yn agored iddyn nhw a mynegi eu meddyliau a'u teimladau iddyn nhw, ac maen nhw'n gwybod eu bod yn gweithio ar eu rhan ar y tu allan gydag asiantaethau y mae angen iddyn nhw fod yn rhan o'r rhwydwaith ymbarél ar gyfer eu cefnogaeth. Yna, pan fyddan nhw'nn gadael y carchar, mae'r rhwydweithiau cymorth a'r asiantaethau hynny yn dal i fod ar waith cyhyd ag y bydd eu hangen ar yr unigolyn hwnnw.'*

3.93 Roedd un neu ddau o'r cyfweleion yn y broses o gael eu hailsefydlu. Roedd un yn cael cymorth gan swyddogion prawf i ddod o hyd i lety a pharhau â'i thriniaeth ar gyfer camddefnyddio cyffuriau ac alcohol: teimlai fod y gwasanaeth prawf yn canolbwyntio gormod ar atal aildroseddu ar draul mynd at wraidd yr hyn a allai achosi iddo ddigwydd.

3.94 Mae'r un fenyw hefyd wedi bod yn gweithio gydag un neu ddau o sefydliadau'r trydydd sector, ar ôl cael gweithwyr achos sydd wedi'i chynorthwyo gyda'i hiechyd meddwl, tai, a chamddefnyddio alcohol. Er bod hyn wedi bod yn amhrisiadwy, dywedodd fod y cymorth y mae wedi'i gael gan y gwasanaethau statudol wedi bod yn llawer llai effeithiol.

*'… i gyrraedd y fan hon o ran fy nhriniaeth ar gyfer camddefnyddio alcohol, cymerodd y broses saith mis i mi a doedd neb yn gwrando. [Cefais] fy nghuro a chefais dolchen waed o ganlyniad i'r anafiadau, ac roeddwn yn dweud wrthyn nhw, ac nid oedd fy iechyd meddwl yn dda, ond doedd neb yn gwrando arnaf i'r pwynt lle cymerais orddos... Dwi wedi gofyn i'm meddygon … fy nghyfeirio at y gwasanaethau iechyd meddwl a dwi wedi cael llythyr yn dweud nad oedd dim byd o'i le arnaf a does dim angen i mi eu gweld … rhoddais y gorau i geisio … Os oeddwn yn teimlo'n isel neu'n dioddef o iselder, [roedd fy ngweithiwr achos] bob*

*amser yn dod allan i fy ngweld unwaith yr wythnos ... Dwi ddim yn gwybod beth fyddwn i wedi'i wneud hebddi am y 12 mis diwethaf.'*

3.95 Cwynodd menyw arall am broblemau gyda'i thag electronig, a oedd yn dangos nad oedd yn ei heiddo, pan oedd yn amlwg ei bod hi.

*'Rydw i fel "Pam wyt ti'n fy ffonio i?", "Mae'n dangos nad wyt ti yn yr eiddo". "Wel, dwi … yn yr eiddo oherwydd fy mod yn … ateb y ffôn …"'*

3.96 Gallai hyn, wrth gwrs, fod wedi cael ôl-effeithiau difrifol o ran torri amodau trwydded.

*'Y funud nesaf rwy'n cael llythyr gan E&S yn dweud fy mod wedi torri fy nhrwydded ac y gallwn gael fy anfon yn ôl i'r carchar oherwydd nad wyf wedi bod yn y tŷ ... roeddwn i mor flin oherwydd roedd yn fy ngyrru'n wallgof.'*

**Heriau trosfwaol ac adborth arall**

3.97 Yn ôl y rhanddeiliaid, mae cyflawni nodau'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yn dibynnu ar oresgyn ystod o heriau trosfwaol. Codwyd llawer o'r rhain hefyd mewn perthynas â'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid.

- Cyllid cynaliadwy, tymor hwy i asiantaethau partner barhau i ddarparu gwasanaethau a chyflogi staff.

*'Mae un o fy mhryderon parhaus bob amser yn ymwneud â chyllid tymor byr … mae cynlluniau a chyfleoedd ariannu blynyddol yn eithaf niweidiol, yn enwedig gyda'r trydydd sector, o ran gallu sicrhau canlyniadau cadarnhaol … weithiau, mae'n eithaf anodd cael adnoddau cynaliadwy. Rydym yn aml yn wynebu swyddi gwag oherwydd cyllid.'*

- Sicrhau mwy o adnoddau pwrpasol (gan gynnwys cymorth gweinyddol) ar gyfer cyflawni ffrydiau gwaith amrywiol y Glasbrint, yn hytrach na disgwyl i unigolion wneud hynny fel 'ychwanegiad' i'w gwaith presennol.

*' … Ar y dechrau, rwy'n meddwl bod llawer o hynny wedi'i sefydlu ar sail ewyllys da rhai o'r sefydliadau allweddol dan sylw. Felly, er enghraifft, daeth yn rhan o'm rôl bresennol i redeg rhai ffrydiau gwaith o'r Glasbrint, ac yn ôl pob tebyg, gellid dweud yr un peth am y mwyafrif, os nad y cyfan, o'r arweinwyr ffrydiau gwaith eraill. Ac rwy'n meddwl oni bai ein bod yn buddsoddi'n benodol yn y rhaglen honno a'r dull o gyflawni'r prosiect hwnnw ac yn rhoi'r holl gymorth gweinyddol a rheoli prosiect sydd ei angen, mae'n anodd cynnal y ddisgyblaeth honno.'*

- Sicrhau bod y Glasbrintiau yn parhau i gael eu blaenoriaethu er gwaethaf newidiadau yn y llywodraeth, arweinwyr strategol, staff allweddol, a blaenoriaethau.

*‘Rwy'n teimlo ei fod wedi colli momentwm ar hyn o bryd gyda'r newidiadau o ran gweinidogion, newidiadau yn y llywodraeth ... dwi'n teimlo efallai bod yr egni oedd yno ar y dechrau yn pylu ychydig oherwydd ei fod wedi cymryd cymaint o amser.’*

- Sicrhau bod y weledigaeth genedlaethol strategol ar gyfer y Glasbrint yn trosi’n ddarpariaeth effeithiol ar lefel leol.

*‘ … mae angen i ni wneud yn siŵr bod cysylltiad gwirioneddol gadarn â darpariaeth leol fel bod digon wedi'i fewnosod ar lefel leol pan fydd y rhaglen yn symud i ffwrdd i ddeall pwysigrwydd cynnal y ffocws hwnnw ar fenywod fel blaenoriaeth … ‘*

- Sicrhau bod gan staff strategol a gweithredol ddigon o amser i ganolbwyntio ar y gwaith o ddatblygu cydberthnasau a chyflwyno’r Glasbrint.

*‘Rwy'n meddwl bod pawb yn cyfrannu mwy o amser i mewn nag sy’n cael ei gyfrif amdano yn yr ystyr hwnnw mewn gwirionedd. Ond y peth allweddol yw … cael y cydberthnasau strategol hynny a digon o ymddiriedaeth yn yr uwch arweinwyr hynny, p’un a ydynt yn gweithio mewn lleoliad datganoledig neu leoliad heb ei ddatganoli.’*

- Adennill unrhyw gynnydd a gollwyd oherwydd COVID-19 yn gyflym.

*‘Mae adferiad yn dilyn y pandemig yn [her], a dyrannu adnoddau i wneud y pethau sylfaenol hyd yn oed, fel cael gwasanaethau yn ôl i'r hen arfer sy'n anodd iawn yn y system cyfiawnder troseddol pan rydyn ni'n sôn am bobl beryglus sydd wedi cael eu goruchwylio mewn ffordd wahanol oherwydd yr holl gyfyngiadau.’*

- Meddu ar y seilwaith rheoli cywir i gyflawni'r newidiadau mewn arferion sydd eu hangen i gyflawni'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod (a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid).

*‘Rwy'n meddwl bod gennym ni'r seilwaith i redeg y Glasbrintiau nawr ond ... nawr rydyn ni'n gwybod beth sydd angen i ni ei newid, beth yw'r seilwaith sydd ei*

*angen i weithredu'r newid hwnnw o fewn asiantaethau? A dwi ddim yn siŵr a ydyn ni wedi mynegi sut olwg sydd ar hynny.'*

- Dull cydgysylltiedig a chyson o gyflawni'r Glasbrint rhwng yr holl ffrydiau gwaith a mentrau, ac ymrwymiad cyfartal gan yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â'r gwaith (mae'n ymddangos bod ymrwymiad ac ymgysylltiad gan wasanaethau iechyd meddwl yn parhau i fod yn broblem, efallai oherwydd diffyg capasiti).

*'Weithiau, mae'n teimlo ein bod ni'n gweithio ar wahân o bryd i'w gilydd, yn hytrach na cheisio uno rhai o'r gwahanol elfennau, ac yn aml, gall fod yn rhai o'r un unigolion sy'n cael eu cynrychioli trwy'r gwahanol agweddau.'*

- Gweithio ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau o ran y polisïau sy'n iawn i bobl ifanc Cymru.

*'Rwy'n meddwl, os ydym am wneud gwelliannau gwirioneddol, mae angen i ni edrych ar yr elfen ddatganoledig a'r elfen heb ei datganoli a gwneud rhai argymhellion i Lywodraeth y DU ar wneud rhai penderfyniadau.'*

- Amlinellu set o ganlyniadau clir ar gyfer y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod (a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid) i fynegi'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni.

*'Dydyn ni ddim yn gwybod sut i ddisgrifio'r hyn mae'r Glasbrintiau yn ei wneud. A dweud y gwir, mae'r diffyg canlyniadau gwirioneddol, caled a sylweddol a ddylai fod wedi bod yn dod i'r amlwg yn awr i gadw diddordeb pobl yn fater sydd angen sylw.'*

3.98 Yn gyffredinol, roedd teimlad bod y ddau Lasbrint yn gyfrwng cadarnhaol ar gyfer ysgogi newidiadau i'r system a datblygu partneriaethau strategol a chyflawni cydlynol ar draws yr holl sectorau perthnasol.

*' … mae Cymru ymhell ar y blaen o gymharu â Lloegr o ran ein gwaith o amgylch y Glasbrint troseddwyr benywaidd [sic.] a chael y gwaith hwnnw mewn gwirionedd ... mae angen cydnabod hynny ... mae'n gadarnhaol iawn ...'*

3.99 Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod yn rhaid asesu eu cyflawniadau trwy waith ymchwil a gwerthuso i ddangos gwerth am arian cyhoeddus ac i osgoi methiant oherwydd diffyg tystiolaeth o fudd.

*‘Rwy'n meddwl bod y rhain yn flaenllaw a dyma'r tro cyntaf i mi gofio i ni weithio gyda'n gilydd ar draws llywodraethau fel hyn. Felly, beth bynnag y byddwch yn ei gynnig o ran gwerthadwyedd, mae'n rhaid i ni allu gwneud rhywbeth ac mae'n rhaid i ni allu dangos hynny [gyda’r] holl arian cyhoeddus hwn, bod rhywbeth wedi'i gyflawni a'i wneud yn wahanol ... fel arall, rydym mewn perygl enfawr o graffu ymhellach i lawr y llinell ac nid wyf am i'r Glasbrintiau hyn wneud hynny, oherwydd fy mod yn meddwl eu bod mor bwysig a bod cymaint eu hangen fel na ellir caniatáu iddynt fethu yn y ffordd honno ... Yn y bôn, rwy'n meddwl mai dyma'r peth iawn i'w wneud ac mae angen i ni ddangos tystiolaeth ohono, er mwyn profi mai dyna oedd y peth iawn i'w wneud.’*

3.100 Ymhellach, teimlwyd bod angen gwerthuso er mwyn dal penderfynwyr strategol i gyfrif i ba raddau y maent yn galluogi neu'n creu rhwystrau i weithredu'r Glasbrintiau.

3.101 Yn olaf, pwysleisiwyd yr angen i sicrhau bod unrhyw werthusiad yn uchelgeisiol, ond yn bragmatig – yn ogystal â chydnabod y gallai fod elfennau na ellir eu gwerthuso eto ond y dylid eu datblygu o hyd gan mai dyma'r 'peth iawn i'w wneud’.

*‘Rwy'n meddwl mai'r peth anoddaf i mi fydd ... dewis a phenderfynu ar y darnau o hyn y gallwn eu gwerthuso a pha ddarnau nad oes modd eu gwerthuso ... mae angen bod yn realistig am y ffaith, os na allwn ddal popeth yn berffaith, bod hynny’n iawn. Ein bod yn dal i feddwl ei bod yn syniad da cyflwyno'r Adroddiadau Cyn Dedfrydu ar gyfer menywod [neu] beth bynnag fo'r enghraifft, ond os nad oes ffordd dda iawn o'i werthuso, boed felly, fe wnawn ni beth bynnag oherwydd ein bod yn dal i feddwl ei fod yn beth da i'w wneud. Felly, rydw i eisiau i ni fod yn eithaf didrugaredd am ... wneud yn siŵr ein bod ni'n gwerthuso'r pethau rydyn ni'n gwybod y gallwn eu gwerthuso ...’*